# DATGANIAD LLYWODRAETHU AR Y CYD BLYNYDDOL 2024/2025

## SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD GWENT

## A

## PHRIF GWNSTABL HEDDLU GWENT

## CYFLWYNIAD

Diben y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yw esbonio sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Gwent wedi cydymffurfio â'u Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol ac i nodi unrhyw broblemau llywodraethu sylweddol sy'n wynebu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Swyddfa'r Comisiynydd) a'r Heddlu.

I'r perwyl hwn, mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i ysgrifennu mewn dwy ran:

- Mae rhan un yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu ar waith yn ystod 2024/25.
- Mae rhan dau yn adrodd ar yr adolygiad o effeithiolrwydd a chanlyniadau'r trefniadau hyn.

## RHAN 1: TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu holl fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod yr arian cyhoeddus sy' cael ei ddyrannu iddo yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Er mwyn cyflawni'r gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, rhaid iddynt roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Caiff eu dyletswyddau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir yn y canlynol:

- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
- Gorchymyn Protocol Plismona 2023
- Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol yr Heddlu a Gwasanaethau Tân ac Achub 2018

Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol, sefydlodd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl Fframwaith Llywodraethu sy'n cynnwys Cod Llywodraethu Corfforaethol sy'n gyson â *Datganiad ar Rôl Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA);*Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol Gwasanaeth Heddlu Cymru a Lloegr (2018); y* Swyddfa Gartref; a *Sicrhau Llywodraethu Da ar gyfer Cyrff Plismona 2016* CIPFA a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) (ychwanegwyd atynt gan ganllawiau CIPFA ym mis Chwefror 2021 'Defnyddio'r Fframwaith Llywodraethu Da').

Mae Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (Y Cod Rheolaeth Ariannol) yn rhoi canllawiau ar gyfer rheolaeth ariannol da a chynaliadwy mewn awdurdodau lleol (gan gynnwys yr heddlu); ac mae'r Datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol ac wedi bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU:**

Mae'r Gorchymyn Protocol Plismona yn cynnwys disgwyliad bod y berthynas rhwng Comisiynydd a Phrif Gwnstabl yn seiliedig ar egwyddorion ewyllys da, proffesiynoldeb, bod yn agored, ac ymddiriedaeth. Mae'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol (y Llawlyfr) a threfniadau llywodraethu ehangach yn Heddlu Gwent yn amlinellu'r systemau a phrosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd y mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn eu defnyddio i reoli eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Mae'n cynnwys manylion trefniadau ar gyfer penderfynu gyda'r nod o sicrhau perthynas weithio effeithiol ac adeiladol rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Llawlyfr yn rhan o'r

adolygiad llywodraethu parhaus. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y dogfennau allweddol hyn yn parhau i adlewyrchu a bodloni anghenion y sefydliad. Mae'r system rheoli mewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith ac er na all ddileu risg, ei nod yw rhoi sicrwydd rhesymol (yn hytrach nac absoliwt) o effeithiolrwydd.

## EGWYDDORION LLYWODRAETHU DA

Mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fabwysiadu a chydymffurfio ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus. Adlewyrchir yr egwyddorion hyn yn y ddogfen Egwyddorion Perthynas y cytunwyd arni gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl; maent hefyd wedi ymroi yn bendant i ddarparu ymateb cadarn, amserol a gofalgar i ddigwyddiadau sy'n effeithio ar y cyhoedd a chymunedau yng Ngwent.

Caiff hyn ei adlewyrchu yng Nghynllun yr Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder 2025-2029 'Gwella Ymddiriedaeth a Hyder Gyda'n Gilydd' (a lansiwyd 28 Mawrth 2025), sy'n rhoi blaenoriaeth i Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; Gwneud ein cymunedau'n fwy diogel Amddiffyn pobl agored i niwed Rhoi blaenoriaeth i ddioddefwyr a Lleihau aildroseddu.

**Anhunanoldeb:** Gwneir penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig, ac nid er budd ariannol personol neu fudd arall, boed hynny i'r cyfryw berson, ei deulu neu ei ffrindiau.

**Uniondeb:** Ni fydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion na'u staff yn eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu unrhyw ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd:** Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddion, bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff yn gwneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

**Atebolrwydd:** Bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a byddant yn derbyn pa bynnag graffu sy'n briodol i'r swydd.

**Bod yn Agored:** Bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a'u camau gweithredu. Bydd rhesymau dros benderfyniadau ar gael, ac ni fydd gwybodaeth yn cael ei chyfyngu oni bai bod angen gwneud hynny er budd y cyhoedd yn ehangach.

**Gonestrwydd:** Bydd gan y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â dyletswyddau cyhoeddus, a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd.

**Arweinyddiaeth:** Bydd y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, eu swyddogion a'u staff yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth a thrwy esiampl.

Hefyd, mae'r Llawlyfr yn gyson â saith egwyddor graidd llywodraethu da a nodir yn y Fframwaith Rhyngwladol ar gyfer Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (2014): -

1. *Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith.*
2. *Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.*
3. *Diffinio canlyniadau o safbwynt manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.*

4. *Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig i'r graddau posibl.*
5. *Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo.*
6. *Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.*
7. *Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.*

Mae Atodiad 1 yn dangos sut y defnyddiwyd y Safonau hyn yng ngwaith y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ystod 2024/25.

**TREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Nod y fframwaith llywodraethu yw canolbwyntio'n gadarn ar y ffactorau sy'n sbarduno plismona, trosedd a chyfiawnder yn Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu, a sicrhau bod yna lwybr clir rhwng y penderfyniadau a wneir a'r Cynllun Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder. Y prif elfennau yw:

**Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol:** Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl Lawlyfr Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd, sy'n cynnwys cynllun dirprwyo, rheoliadau ariannol a rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chontractau, Egwyddorion Perthynas, a Gorchmynion Safonol yn ymwneud â Chontractau. Hefyd, mae'n cynnwys fframwaith gwneud penderfyniadau sy'n sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod holl benderfyniadau'r Comisiynydd yn cael eu cyhoeddi a'u bod ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt.

**Egwyddorion Perthnasoedd:** Mae'r ddogfen hon yn cydnabod cyfrifoldebau gweithredol y Prif Gwnstabl, oddi mewn i'r fframwaith polisi ac atebolrwydd a bennwyd gan y Comisiynydd. Er gwaethaf eu statws 'corfforaeth undyn' ffurfiol, mae'r berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn seiliedig ar gydweithio er budd pobl Gwent. Mae'r egwyddorion yn nodi y bydd y berthynas rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn seiliedig ar ymddiriedaeth, hyder a thryloywder. Mae'r trefniadau llywodraethu'n gyson â'r angen i sicrhau atebolrwydd rhwng y partïon, ac atebolrwydd i'r cyhoedd. Parhaodd y dull tryloyw ac archwiliadwy hwn yn ddilys yn 2024/25.

**Fframwaith Llywodraethu:**

Yn dilyn ymchwil helaeth ar draws cyrff cyhoeddus ac ystyried canfyddiadau o adolygiadau Archwilio Mewnol, datblygwyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF). Mae'r BAF yn ystyried swyddogaethau statudol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sy'n gynwysedig yng Nghynllun Dirprwyo'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol (sy'n tynnu sylw at feysydd y mae uwch swyddogion y ddau sefydliad yn gyfrifol amdanynt a meysydd o'r blaengynllun gwaith ar gyfer y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad (SPB)[1]/Bwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd (AAB) a'r Cydbwyllgor Archwilio). Mae'n amlinellu trefniadau llywodraethu Heddlu Gwent (yn defnyddio'r model 'tair llinell amddiffyn' yn erbyn chwe phrif alluogwr a chanlyniadau (gan gynnwys y swyddogaethau statudol uchod) i ddangos cyflawniad amcanion corfforaethol. Pan fyddant wedi eu mapio, bydd effeithiolrwydd pob lefel o lywodraethu ar gyfer pob galluogwr/ffactor llwyddiant yn cael ei raddio ac mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu.

Mae cynllun gweithredu presennol a dyfodol y BAF yn parhau i gael ei fonitro'n flynyddol gan y Cydbwyllgor Archwilio er mwyn rhoi sicrwydd

[1] SPB yw'r fforwm penderfynu ar gyfer y Comisiynydd a'r prif fforwm lle bydd y Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif. Ym mis Mehefin, disodlwyd SPB gan y Bwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd (AAB).


bod unrhyw fylchau a risgiau perthnasol sy'n cael eu nodi mewn perthynas â methiant i gyflawni dyletswyddau statudol yn cael sylw. Caiff y cynllun gweithredu ei fonitro bob tri mis yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynllunio Strategol hefyd.

Mae Pwynt Cyswllt Unigol wedi cael ei benodi ar gyfer camau gweithredu Swyddfa'r Comisiynydd a'r Heddlu, i sicrhau bod y BAF yn cael ei ddiweddaru a bod cynnydd yn cael ei wneud rhwng cyfarfodydd. Caiff y ddogfen BAF drosfwaol ei hadolygu bob pedair blynedd (gydag adolygiad ar y gweill yn 2025/26 yn dilyn ethol y Comisiynydd newydd ym mis Mai 2024.) Mae'r adolygiadau hyn yn ffordd o ganfod unrhyw feysydd risg newydd.

**Strwythur Cyfarfodydd:** Mae strwythurau cyfarfodydd ac adrodd y Prif Gwnstabl a Swyddfa'r Comisiynydd yn cyd-fynd â chyflawniad Cynllun yr Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder; cyflawni dyletswyddau statudol; a gwella capasiti a gallu'r sefydliadau priodol, gyda'r nod o fynd i'r afael â materion perfformiad a chyflawni.


Mae strwythur cyfarfodydd llywodraethu'r Prif Gwnstabl yn y diagram isod yn nodi'r strwythur cyfarfodydd a gyflwynwyd o fewn y Llu yn 2024/25. Mae'r cyfeiriad at gyfarfodydd Swyddfa'r Comisiynydd (blwch gwyrdd) at y cyfarfodydd hynny sy'n cael eu cadeirio gan Swyddfa'r Comisiynydd sy'n rhyngweithio'n uniongyrchol â threfniadau Llywodraethu'r Heddlu.

Mae'r ail ddiagram yn cadarnhau strwythur cyfarfodydd mewnol y Swyddfa'r Comisiynydd, a adolygwyd ddiwethaf yn 2022.



MEETING STRUCTURE
Accountability & Assurance Board (PCC)
Joint OPCC/Force Meetings:
- Joint Audit Committee
- Commissioning Board
- Estate Strategy Board (Fed by Estate Implementation Group )
- CC/PCC Weekly Meeting
- CC/Chief Exec Monthly Meeting
Leadership Insights (Q1)
FCOT
CC | Monthly
Service Improvement Board
DCC | Monthly
Scrutiny Executive Board
DCC | Monthly
Force Improvement Board
DCC | Quarterly
Strategic Workforce Planning Board
DCC | Bi-Monthly
Workforce Resource (Q2)
Head of HR | Monthly
Operational Model
Estates Implementation
Greener Gwent
Product & Efficiency
Commissioning
All Wales Collaboration
ICT Convergence Programme - Gold
DSD
SRS
Financial Tracker
Organisational Learning
Organisational Resource Board
ACC (Org) | Quarterly
UEFU
CFO | Bi-Monthly
Health & Safety
ACC (Org) | 4 monthly
Data Performance
CS Roberts | Monthly
Strategic Business Continuity
ACC (Org) | Quarterly
Procurement
Joint Legal Services
Information Services
Operational Effectiveness Board
ACC (Ops) | Monthly
FCC Performance (Q5)
CJD & Custody Performance (Q9)
Supt Bartley
Homicide & Serious Violence
DCS Tuck | Monthly
Victims (Q6)
DCS Tuck | Quarterly
Investigations Standards (Q6)
DCS Tuck | Monthly
Security Review Group
Response
Culture Board
ACC (Org) | Quarterly
Legitimacy (Q2)
CS Roberts | Quarterly
Ethics (Q2)
CS Roberts | Quarterly
Police Race Action Plan (PRAP)
Angiolini
Welsh Language
PSD
Engagement Board
ACC (Ops) | Monthly
Engaged Communities (Q4)
Coercive Powers (Q3)
CS John Davies
Hate Crime Forum
IAG
Youth IAG
Neighbourhood
VAWG, Vulnerability & SOC Board
ACC (Ops) | Monthly
VAWG & Vulnerability (Q7)
DCS Tuck | Monthly
SOC (Q8)
CS Roberts | Monthly
Hate Crime (Q7)
Crime
People Board
ACC (Org) | Bi-Monthly
Op Hampshire
Meetings with a red outline require performance packs from analysts.

## Strwythur Llywodraethu Mewnol Swyddfa'r Comisiynydd



## RHAN DAU: ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD A CHANLYNIADAU

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gwblhau adolygiad, o leiaf unwaith y flwyddyn, o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system reoli fewnol.

Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan:

- Waith prif swyddogion ac uwch reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu;
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF);
- adroddiadau blynyddol ar yr Archwiliadau Mewnol;
- Adroddiad blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio;
- barn yr archwilydd allanol trwy'r llythyr archwilio blynyddol; ac
- adroddiadau gan arolygiaethau adolygu eraill.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ar y Cyd (a'r gwaith o'i baratoi) yn adnodd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl werthuso eu trefniadau llywodraethu. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Rheoli Strategol y Comisiynydd, Cyfarfod Ffurfiol Tîm Prif Swyddogion y Prif Gwnstabl a'r Cydbwyllgor Archwilio cyn cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad/Atebolrwydd a Sicrwydd. Mae Archwilio Cymru hefyd yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a bydd yn hysbysu (trwy eithriad) os nad yw'n cydymffurfio â gofynion.

### ADOLYGIAD EFFEITHIOL O DREFNIADAU LLYWODRAETHU MEWNOL

Mae'r tudalennau blaenorol yn tynnu sylw at strwythurau cyfarfodydd Swyddfa'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r paragraffau canlynol yn cadarnhau'r adolygiadau diweddaraf o effeithiolrwydd y trefniadau cyfarfodydd llywodraethu priodol.

### SWYDDFA'R COMISIYNYDD

Mae'r Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth Swyddfa'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynnal adolygiadau cyfnodol ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r adolygiadau hyn yn ddeublyg, gan gynnwys adolygiad o drefniadau llywodraethu cyfarfodydd mewnol Swyddfa'r Comisiynydd yn ogystal ag adolygiad o sut mae'r Comisiynydd (ac yn rhannol Swyddfa'r Comisiynydd) yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif trwy gyfarfodydd llywodraethu.

Gwnaeth adolygiad yn 2022 rai argymhellion gyda'r bwriad o sicrhau cymaint o atebolrwydd a thryloywder â phosibl drwy'r trefniadau hyn, yn enwedig o ran y canlynol:

*Swyddfa'r Comisiynydd mewnol*

- *Bwrdd Rheoli Strategol;*
- *Cyfarfod Cynllunio a Pherfformiad; a*
- *Y Bwrdd Strategaeth Ystadau.*

*Swyddfa'r Comisiynydd*

- *Cyfarfodydd unigol rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl; a*
- *Cyfarfod tîm gweithredol Swyddfa'r Comisiynydd gyda Phrif Swyddogion yr Heddlu.*

Hyd yn hyn, mae newidiadau o'r fath wedi'u hymgorffori'n llwyddiannus a gwelliannau diriaethol yn cael eu gweld. Cynhelir adolygiadau gan gymheiriaid o drefniadau Llywodraethu o fewn Swyddfa'r Comisiynydd

o bryd i'w gilydd ar draws Swyddfeydd Comisiynwyr Cymru a Lloegr. Mae model Gwent yn profi'n gyson i fod yn ddull cadarn ac effeithiol, ac mae agweddau wedi'u mabwysiadu gan swyddfeydd comisiynwyr eraill.

Yn dilyn ethol y Comisiynydd newydd ym mis Mai 2024, comisiynwyd adolygiad pellach i'r trefniadau ar sut mae'r Comisiynydd (a Swyddfa'r Comisiynydd yn rhannol) yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif mewn ffordd agored a thryloyw. Mae'r mireinio a nodwyd ac sydd i'w gweithredu yn ystod 2025/26 yn ymwneud â:

- Bwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd i ddisodli'r Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad;
- Cyfarfod Craffu Safonau Proffesiynol;
- Cyfarfodydd Sicrwydd Cyhoeddus ym mhob un o'r 5 Awdurdod Lleol, lle bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn trafod materion sy'n effeithio ar y cymunedau hynny gyda chyfarfodydd ychwanegol ar thema ad hoc ar gyfer materion fel canlyniadau Arolygu PEEL; a
- Dadansoddiad Manwl o faes a nodwyd o waith Heddlu Gwent, yn seiliedig ar ffynonellau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol.

Bydd ymgorffori ac effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn yn cael eu hasesu maes o law.

**Prif Gwnstabl**

Mae'r tîm Llywodraethu a Sicrwydd yn gyfrifol am y prosesau sy'n sail i oruchwyliaeth yr Heddlu, yn fewnol ac yn allanol. Maent yn rheoli strwythur, fformat a gweithrediad cyfarfodydd a byrddau'r Heddlu i sicrhau bod yr Heddlu yn gallu craffu a chyflawni materion risg, polisi ac archwilio'n briodol. Maent hefyd yn brif gyswllt yr Heddlu ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod swyddogaeth yr Arolygiaeth yng Ngwent yn cael ei gyflawni'n ddidrafferth.

Mae gan yr Adran hefyd dîm o Ringylliaid Heddlu sy'n cynorthwyo mewn adolygiadau mewnol a phrofion realiti i ddeall perfformiad yr Heddlu ac ysgogi gwelliannau. Mae Llywodraethu a Sicrwydd hefyd yn gyfrifol am reoli cofrestr Risg Strategol yr Heddlu, cydlynu polisïau a gweithdrefnau'r Heddlu yn ogystal â Thîm y Dyfodol, sy'n gyfrifol am sganio'r gorwel ac addasu'r Heddlu i ymdrin â bygythiadau, risgiau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Mae gan bob un o'r cyfarfodydd llywodraethu a nodir uchod eitemau agenda sefydlog sy'n ymwneud â chamau gweithredu, rheoli risg, a materion ar gyfer eu dwysáu. Mae'r rhain yn cael eu hystyried gan Brif Swyddogion o fewn fframwaith llywodraethu'r Heddlu ac yn y pen draw ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r strwythur llywodraethu ei hun yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Yn ogystal â hyn, mae Datganiad Rheoli'r Heddlu, a gynhyrchir yn flynyddol, yn crynhoi'r galw, y capasiti a'r gallu yn y dyfodol, yn ogystal â'r risgiau a'r materion a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Mae'r Datganiad hwn hefyd yn nodi'r trefniadau sy'n monitro perfformiad i ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol ac effeithlon i'r cyhoedd, ac mae'r broses i'w gwblhau yn ychwanegu haen ychwanegol o graffu at effeithiolrwydd prosesau, gweithdrefnau a threfniadau'r Heddlu.

**DYMA FANYLION SWYDDOGAETHAU'R CYRFF GWAHANOL:**

**Y Cydbwyllgor Archwilio**

Mae'r pwyllgor archwilio annibynnol yn rhoi sicrwydd i wella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn llywodraethu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â'r Cod Ymarfer ar Reoli Ariannol sy'n nodi y dylai corff cyfun o'r fath ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio hefyd yn ystyried adroddiadau gan HMICFRS; yn cynghori'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn unol ag egwyddorion llywodraethu da; ac yn darparu:

- sicrwydd annibynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn â digonolrwydd y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli cysylltiedig;
- craffu'n annibynnol ar berfformiad ariannol y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd; a
- goruchwylio mewn perthynas â'r broses adrodd ariannol a fabwysiadwyd o Ganllawiau Ymarferol Pwyllgorau Archwilio CIPFA (fel y'u diwygiwyd yn 2022).

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio hefyd yn darparu sylwadau, cyngor a sicrwydd ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd rheoli mewnol ac mae ganddo gyfrifoldeb penodol i ddarparu sicrwydd annibynnol ar y trefniadau ar gyfer llywodraethu.

Mae gan y Cydbwyllgor Archwilio gylch gwaith ffurfiol, sydd wedi'u nodi yn y Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol ac mae'n cyd-fynd â Chanllawiau CIPFA 2022 ar gyfer pwyllgorau archwilio awdurdodau lleol a'r heddlu. Adolygwyd y cylch gwaith yn 2024/2025.

Mae aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio'n asesu'r Cydbwyllgor Archwilio yn flynyddol yn erbyn y Rhestr Wirio Hunanasesu a gyhoeddir gan CIPFA. Tynnodd yr ymarfer hunanasesu a gynhaliwyd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/25 sylw at y meysydd gwella allweddol canlynol:

- Cydbwyllgor Archwilio i ystyried ymhellach ei rôl o ran prosiectau cydweithredol fel y'i llywiwyd gan waith Bwrdd Goruchwylio Cydweithredu Cymru Gyfan.
- Hyfforddiant pellach i'w ystyried gan y Cydbwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r Strategaeth Ystadau newydd a Deallusrwydd Artiffisial
- Y Cydbwyllgor Archwilio i dderbyn rhagor o sesiynau briffio mewn perthynas â Strategaeth Cynaliadwyedd yr Heddlu

Bydd y meysydd hyn yn cael eu monitro gan y Cydbwyllgor Archwilio yn 2025/2026.

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl sydd ill dau yn cael eu cynrychioli ym mhob cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn cynnwys pum aelod annibynnol ac ni phenodwyd aelodau newydd yn 2024/25.

Yn ystod 2024/25 cynhaliwyd diwrnod hyfforddi ffurfiol ar gyfer aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ym mis Medi 2024. Cynhaliwyd chwe chyfarfod ffurfiol hefyd yn 2024/25 (roedd un yn gyfarfod ychwanegol yn ymwneud â llofnodi cyfrifon ariannol 2023/24).
Yn ystod 2024/5, cynhaliwyd 'Dadansoddiadau Manwl' gan y Cydbwyllgor Archwilio hefyd mewn perthynas â:

- Safonau Proffesiynol (Moeseg a Diwylliant) (Mehefin 2024)
- Tîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu (Gorffennaf 2024)
- Trwyddedu Arfau Tanio a'r Is-adran Gwasanaethau Digidol (Medi 2024)
- Gwydnwch Ariannol/Gwerth am Arian (Tachwedd 2024)
- Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (Mawrth 2025)

Ystyriwyd y risgiau canlynol yn fanwl gan y Cydbwyllgor Archwilio: Datgelu Gwybodaeth (Mehefin 2024), Darpariaethau Yswiriant (Medi 2024) a Diwylliant (Mawrth 2025).

Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol yn flynyddol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynglŷn â pherfformiad y Cydbwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn, gyda throsolwg o'r gwaith craidd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn erbyn cylch gwaith y Cydbwyllgor Archwilio. Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn amlinellu blaenoriaethau'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn i ddod ac mae hefyd yn darparu casgliad. Rhoddodd Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio 2024/25 y casgliad canlynol:

**2024/25 Datganiad Sicrwydd Llywodraethu Cyffredinol gan y Cydbwyllgor Archwilio. Cadarnhaodd Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer 2024/25, yn seiliedig ar graffu gan y Cydbwyllgor Archwilio ar y wybodaeth a ddarparwyd a'i ymholiadau o reolwyr, ei fod yn parhau i fod yn fodlon y gall y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fod yn sicr bod y sefyllfa rheoli, risg a llywodraethu ar gyfer 2024/25 yn parhau i fod yn briodol.**

**Y Pwyllgor Moeseg Annibynnol (IEC) a'r Grŵp Moeseg Mewnol (IEG):** Sefydlwyd Pwyllgor Moeseg Annibynnol (IEC) ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i ddarparu cyngor, cefnogaeth a chymorth ynghylch heriau moesegol sy'n deillio o faterion gweithredol, gweinyddol neu sefydliadol sy'n wynebu Heddlu Gwent. Cefnogwyd y gwaith hwn gan Grŵp Moeseg Mewnol (IEG), dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol. Yn 2024/2025 gwelwyd gwaith yn cael ei wneud gan Heddlu Gwent i ymgorffori ymhellach yr egwyddorion o'r Cod Ymarfer ar gyfer Plismona Moesegol a'r Cod Moeseg newydd diwygiedig, a gyhoeddwyd yn 2024.

**Archwilio mewnol:**

Hyd at 31 Mawrth 2025, diffiniwyd rôl a safonau Archwilio Mewnol yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Ar 1 Ebrill 2025, disodlodd y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) y PSIAS.

Mae'r GIAS yn cwmpasu'r diffiniad o Archwilio Mewnol, Cod Moeseg a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol. Mae archwilwyr mewnol yn cwblhau rhaglen flynyddol o archwiliadau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r cynllun yn seiliedig ar risg yn unol â'r GIAS a gellir ei newid i gwmpasu risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r cynllun yn cynnwys systemau ariannol allweddol gydag argymhellion ar gyfer gwella a ddarperir i'r rheolwyr perthnasol a'r Cydbwyllgor Archwilio. Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r system reoli fewnol sydd angen ei chynnal yn unol ag arferion archwilio mewnol priodol. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gyflawni swyddogaeth archwilio mewnol effeithlon.

Mae'r adolygiad o drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg (a gafwyd yn y cofrestrau risg a gynhelir gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl) yn ymddangos o bryd i'w gilydd yn y cynllun archwilio blynyddol. Mae materion llywodraethu corfforaethol a rheoli risg hefyd yn codi trwy adolygiadau eraill. Mae Archwilwyr Mewnol yn cyflwyno eu hadroddiadau ar ddigonolrwydd y rheolaethau yn y systemau a archwiliwyd i'r Cydbwyllgor Archwilio, gan nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Y darparwyr gwasanaeth archwilio mewnol presennol ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yw TIAA. Yn 2022, comisiynodd TIAA Asesiad Ansawdd Allanol (EQA) o'i wasanaeth archwilio mewnol. Bu modd i'r aseswr EQA annibynnol ddod i'r casgliad bod TIAA 'yn gyffredinol yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac elfennau gorfodol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol (IPPF) Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol (IIA).'

'Yn gyffredinol yn cydymffurfio' yw'r sgôr uchaf y gellir ei chyflawni gan ddefnyddio model asesu EQA yr IIA. Cynhaliwyd gwaith sicrhau ansawdd parhaus trwy gydol y flwyddyn ac mae'n parhau i gydymffurfio â safonau ISO 9001.

Yn ogystal, oherwydd bod y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn aelodau o'r Gwasanaethau Adnoddau a Rennir (SRS) ar gyfer darparu gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Dinas Casnewydd, o fis Mai 2016 dewiswyd gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gwblhau'r cynllun archwilio ar gyfer SRS. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod dull archwilio cyson yn cael ei fabwysiadu gan holl bartneriaid yr SRS. Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiad ar gynnydd y cynllun archwilio mewnol ar gyfer gwasanaethau TGCh, ynghyd â'r cynllun archwilio a gyflwynir gan TIAA. Mae sicrwydd yn cael ei ddarparu gan swyddogaeth archwilio mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfeirio at hynny wrth ystyried y fframwaith rheoli ar gyfer y swyddogaethau TGCh.

Yn ystod 2024/25 cynhaliodd TIAA **16** adolygiad gyda'r nod o benderfynu i ba raddau y mae'r rheoliadau mewnol yn y system yn ddigonol, i sicrhau bod gweithgareddau a threfniadau'n gweithio i gyflawni amcanion y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Yn ogystal, cynhaliwyd dau adolygiad dilynol i wirio cynnydd mewn perthynas ag argymhellion Blaenoriaeth 1 a 2. Trafodwyd yr adroddiadau hyn yn y Cydbwyllgor Archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn 2024/25 yn **Atodiad 3** i'r Datganiad hwn.

Ar gyfer pob archwiliad rhoddwyd asesiad o effeithiolrwydd cyfunol y rheoliadau o ran lliniaru'r prif risgiau i reoliadau archwilio. Dyma fanylion y rhain:

| Asesiadau Sicrwydd | Nifer yr Adolygiadau | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 7 | 12 |
| Sicrwydd Rhesymol | 7 | 7 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 2 | 2 |
| Dim Sicrwydd | 0 | 0 |

**Barn Archwiliad Blynyddol TIAA 2024/25:**

**Yr wyf yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, bod gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent brosesau rheoli risg a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.**

Ar gyfer SRS, cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen farn flynyddol hefyd ei fod yn fodlon bod gwaith archwilio digonol wedi cael ei gynnal i roi barn gyffredinol bod llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) cydweithredol yn 'Foddhaol ar y cyfan, mae angen gwella rhywfaint'.

Roedd y cynllun archwilio y cytunwyd arno'n cynnwys **11** maes adolygu, gan gynhyrchu tair barn archwilio 'sylweddol' a naw barn archwilio 'llawn'.

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddiadur Gweithredol | Llawn |
| Gwasanaeth Integreiddio Cymwysiadau | Llawn |

| | |
|---|---|
| Rheoli Busnes | Llawn |
| HALO | Llawn |
| System Rheoli Diogelwch Gwybodaeth | Llawn |
| Cyfrifiadura Symudol | Llawn |
| Rheoli Asedau Meddalwedd | Llawn |
| SolarWinds | Llawn |
| Gwarediadau TG | Sylweddol |
| Rheolaeth Parhad Gwasanaeth TG | Sylweddol |
| Canolfan Ddata - GPA | Rhesymol |

Arweiniodd y rhain at nodi 20 canfyddiad (pump uchel, 13 canolig, a dau isel).

**Archwilio Allanol**

Mae'r Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Hefyd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru asesu a yw'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer defnyddio adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn archwilio datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, yn ogystal â chyfrifon y Grŵp, ac mae'n adrodd (drwy eithriad) ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Ar y Cyd os nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion. Yn ei hadroddiad archwilio blynyddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cyflwyno sylwadau ar yr agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, statws ariannol, systemau rheolaeth ariannol fewnol a safonau ymddygiad ariannol, twyll a llygredigaeth. Caiff cynlluniau ac adroddiadau archwilio allanol o'r fath, gan gynnwys y llythyr archwilio blynyddol, eu hystyried gan y Cydbwyllgor Archwilio ar adegau priodol yn ei gylch blynyddol o gyfarfodydd.

Yn bwysig, mae Archwilio Cymru'n cwrdd â thimau cyllid pedwar heddlu Cymru, gyda'i gilydd ac yn unigol, sy'n gyfrifol am gynhyrchu datganiadau ariannol (trwy'r sesiynau Dysgu Wedi Prosiect (PPL), i ysgogi gwelliant a chysondeb wrth gynhyrchu datganiadau ariannol.

**Cyrff Eraill**

Mae angen gwybodaeth ariannol ar Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a nifer o gyrff eraill er mwyn monitro gwariant ar refeniw a chyfalaf. Mae telerau ac amodau llym ar waith i lywodraethu cyllid allanol ychwanegol a dderbynnir gan y cyrff hyn.

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)**

Swyddogaeth HMICFRS (sydd hefyd â chyfrifoldebau Gwasanaeth Tân yn Lloegr yn unig) yw hyrwyddo darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd plismona yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon trwy arolygu sefydliadau a swyddogaethau'r heddlu er mwyn sicrhau bod safonau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni a'u cynnal; bod arfer da yn cael ei ledaenu; a bod perfformiad yn gwella. Mae HMICFRS yn arolygu swyddogaethau'r Prif Gwnstabl, nid y Comisiynydd. Hefyd, mae'n darparu cyngor a chymorth i'r partneriaid teirochrog (yr Ysgrifennydd Cartref, y Comisiynwyr a'r Prif Gwnstabliaid). Mae HMICFRS yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o roi gwybod i'r Comisiynydd a'r cyhoedd am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu

heddluoedd ac, wrth wneud hynny, hwyluso atebolrwydd y Comisiynydd i'r cyhoedd.

Mae HMICFRS yn annibynnol ar y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ei gylch gwaith yw asesu gwaith heddluoedd mewn meysydd busnes gwahanol, gan gynnwys plismona cymdogaeth, troseddu difrifol a chyfundrefnol, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymdrin â bygythiadau mawr megis terfysgaeth. Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) yn mynd ati i fonitro perfformiad yr Heddlu o ran ei gynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol. Cyhoeddir adroddiadau ar: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/. Mae adroddiadau'r Arolygiaeth yn cael eu hanfon at y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd er mwyn cael eu hystyried a'u gweithredu'n briodol. Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd yn ôl y gyfraith i ymateb i unrhyw adroddiad gan HMICFRS (gan anfon unrhyw ymateb at yr Ysgrifennydd Cartref a HMICFRS). Dylai ymatebion gynnwys diweddariad ar unrhyw gamau gweithredu y mae'r Heddlu yn eu cymryd/nad yw'n eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw argymhellion a wneir o fewn yr adroddiad.

Dangosir manylion y gwaith arolygu a wnaed yn ystod 2024/25 isod.

Mae arolwg PEEL 2023-2025 Heddlu Gwent yn gyflawn. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym Mehefin 2025:

| Eithriadol | Da | Digonol | Angen Gwella | Annigonol |
|---|---|---|---|---|
| Cofnodi data am drosedd | | Pwerau'r Heddlu a thrin y cyhoedd yn deg a gyda pharch | Ymchwilio i drosedd | |
| | | Atal a dargyfeirio oddi wrth drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lleihau bregusrwydd | Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed | |
| | | Ymateb i'r cyhoedd | Arweinyddiaeth a rheolaeth yr heddlu | |
| | | Rheoli troseddwyr a phobl dan amheuaeth | | |
| | | Adeiladu, cefnogi ac amddiffyn y gweithlu | | |
| | | Ymdrin â llygredigaeth yn y gweithlu | | |

Mae'r Tîm Prif Swyddogion wedi ystyried yn ofalus yr holl feysydd i'w gwella a nodwyd gan HMICFRS yn eu hasesiad PEEL 2023-25.

Mae arweinwyr yr Heddlu yn gyfrifol am weithio tuag at ddatblygu ymateb a darparu diweddariad i Fwrdd Gwella'r Heddlu, sy'n cyfarfod yn fisol i fonitro cynnydd. Mae hyn yn cael ei oruchwylio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl.

Ar ben hynny, ym mis Awst a mis Medi 2024, cynhaliwyd arolygiad gan HMICFRS ac Arolygiaeth Iechyd Cymru i asesu effeithiolrwydd gwasanaethau'r ddalfa. Cyhoeddwyd yr adroddiad arolygu ym mis Ionawr 2025 ac roedd yn gwneud dau argymhelliad a 12 maes i'w

gwella. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â'r rhain, dan arweiniad Pennaeth yr Adran Cyfiawnder Troseddol.

**Panel yr Heddlu a Throsedd**

Panel yr Heddlu a Throsedd sy'n gyfrifol am adolygu neu'n craffu ar benderfyniadau neu gamau eraill a gymerwyd wrth gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd. Nid yw'r Panel yn craffu ar berfformiad y Prif Gwnstabl a'r Heddlu yn uniongyrchol (dyna rôl y Comisiynydd).

Mae'r Canllawiau ar gyfer Paneli 2022 yn nodi 'o ran gwaith craffu, dylai'r Panel ganolbwyntio'n bennaf ar wneud hynny ar lefel strategol a chanolbwyntio ar ganlyniadau, wedi'i lywio gan fanylion perfformiad trwy gydol y flwyddyn flaenorol'.

Mae'r Panel yn cynnwys deuddeg Cynghorydd lleol, sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol yng Ngwent, ynghyd â dau aelod annibynnol.

Mae cyfrifoldebau a phwerau'r Panel yn cynnwys:

- Paratoi adroddiadau/argymhellion ynglŷn â gweithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiynydd;
- Craffu ar y fersiwn drafft o Gynllun yr Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder;
- Gofyn i'r Comisiynydd, a'i staff, ateb cwestiynau'r cyhoedd;
- Craffu ar gyllideb yr heddlu a phraesept y dreth gyngor, gan roi feto arnynt o bosibl os oes mwyafrif o ddwy ran o dair;
- Craffu ar benodiad y Prif Gwnstabl, gan roi feto arno o bosibl os oes mwyafrif o ddwy ran o dair;
- Cynnal gwrandawiadau cadarnhau ar gyfer staff uwch y Comisiynydd (gan gynnwys y Dirprwy Gomisiynydd, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid);
- Ymdrin â chwynion lefel is yn erbyn y Comisiynydd.

Mae agendâu a chofnodion y Panel yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ganlynol:
http://www.gwentpcp.org.uk/cy/hafan/

Cynhaliwyd pum cyfarfod yn ystod 2024/25 – 12 Gorffennaf, 27 Medi, 13 Rhagfyr, 31 Ionawr 2025 a 28 Mawrth 2025

***Yn ystod 2024/25 roedd gwaith y Panel yn cynnwys ystyried y canlynol:***

- Adroddiad Blynyddol 2023/24 Swyddfa’r Comisiynydd;
- Trosolwg o gyflawniadau’r Comisiynydd;
- Craffu ar dystiolaeth Swyddfa’r Comisiynydd ar gyfer monitro Perfformiad yr Heddlu;
- Rhagamcanion Ariannol Tymor Canolig a'r amserlen pennu cyllideb;
- Cyd-destun Gweithredol Strategaeth Ariannol cais y Prif Gwnstabl am gyllid;
- Arolwg Gwydnwch Ariannol Lluoedd Heddlu
- Cynnig y Praesept ar gyfer 2025/26;
- Adroddiad Blynyddol Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg Swyddfa'r Comisiynydd 2023/24;
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys;
- Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn;
- Diweddariad Adolygiad Cymorth i Ddioddefwyr;
- Cyflwyniadau ar Ddiogelwch y Cyhoedd a Newidiadau Camymddwyn yn ogystal â Chynllun Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder newydd y Comisiynydd.
- Cadarnhau penodiad Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar 24 Mai 2024 (cyfarfod arbennig).

## CASGLIAD A BARN

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, maent yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu eu materion, gan hwyluso'r broses o arfer eu swyddogaethau yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Ar sail yr adolygiad uchod o ffynonellau ac effeithiolrwydd sicrwydd a nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn fodlon bod ganddynt drefniadau llywodraethu rhesymol ar waith, gan gynnwys systemau rheoli mewnol a rheoli risg priodol, sy'n hwyluso'r broses o arfer eu swyddogaethau yn effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn nesaf mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cynnig y dylid parhau i adolygu trefniadau llywodraethu o fewn yr Heddlu a thîm y Comisiynydd gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a darpariaethau deddfwriaeth a chanllawiau a ddiweddarwyd.

...................................................... ......................................................
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Prif Gwnstabl

...................................................... ......................................................
Prif Swyddog Cyllid (Comisiynydd) Prif Swyddog Cyllid (Prif Gwnstabl)

...................................................
Prif Weithredwr

**ATODIAD 1**


**SAITH EGWYDDOR GRAIDD LLYWODRAETHU DA**

Mae'r diagram isod yn dangos y berthynas rhwng saith egwyddor graidd llywodraethu da. Mae'r ddwy egwyddor ganolog yn sylfaen i'r fframwaith cyfan ac maent yn ymwneud â 'gweithredu er budd y cyhoedd'. Mae'r ddwy egwyddor hyn ymhlyg yn y pum egwyddor arall sy'n ymwneud â 'chyflawni llywodraethu da'.

Cynhelir asesiad blynyddol o effeithiolrwydd gan y ddau Brif Swyddog Cyllid gan ystyried ystod o dystiolaeth: deunydd a gyhoeddwyd yn fewnol ac yn allanol, barn annibynnol broffesiynol, barn uwch reolwyr, adborth gan Banel yr Heddlu a Throsedd a barn arweinwyr proffesiynol. Mae'r Prif Swyddogion Cyllid hefyd wedi defnyddio'r 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework (atodiad sy'n cwmpasu'r adolygiad blynyddol o lywodraethu a'r datganiad llywodraethu blynyddol)' yn eu trafodaethau. Dangosir crynodeb o asesiad 2024/25 isod:

| Categori Llywodraethu Da | | Sicrwydd |
|---|---|---|
| Gweithredu er Budd y Cyhoedd | Ymddwyn ag Uniondeb a Moeseg | Rhesymol |
| | Ymddwyn yn Agored ac Ymgysylltu | Rhesymol |
| Sicrhau Llywodraethu Da | Canlyniadau Cynaliadwy | Rhesymol |
| | Penderfynu Ymyriadau | Rhesymol |
| | Gallu ac Arweinyddiaeth | Rhesymol |
| | Risgiau a Pherfformiad | Rhesymol |
| | Tryloywder ac Atebolrwydd | Rhesymol |

| Diffiniadau o Sicrwydd | |
|---|---|
| Sylweddol | Nodwyd bod gan bob maes a adolygwyd brosesau corfforaethol effeithiol a bod gofynion allanol ar waith. Mae tystiolaeth dda o ymddygiad a chanlyniadau ac roedd risgiau yn erbyn cyflawni amcanion yn cael eu rheoli'n dda. |
| Rhesymol | Nodwyd bod gan y rhan fwyaf o'r meysydd a adolygwyd brosesau corfforaethol effeithiol a bod gofynion allanol ar waith. Roedd tystiolaeth dda o'r rhan fwyaf o ymddygiad a chanlyniadau, ac yn gyffredinol, roedd y risgiau yn erbyn cyflawni amcanion yn cael eu rheoli'n dda. |
| Rhannol | Nodwyd nad oedd gan nifer o feysydd a adolygwyd brosesau corfforaethol effeithiol ac nad oedd gofynion allanol ar waith. Roedd tystiolaeth dda o rywfaint o ymddygiad a chanlyniadau, ond nid oedd risgiau allweddol yn erbyn cyflawni amcanion yn cael eu rheoli'n dda. |
| Dim | Nodwyd nad oedd gan nifer sylweddol o feysydd a adolygwyd brosesau corfforaethol effeithiol ac nad oedd gofynion allanol ar waith. Nid oedd tystiolaeth dda o ymddygiad a chanlyniadau ac nid oedd risgiau yn erbyn cyflawni amcanion wedi'u rheoli'n dda. |



Ni nodwyd unrhyw wendidau arwyddocaol ar gyfer 2024/25 (fel yn y flwyddyn flaenorol) ac ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu pellach. Mae'r holl gamau gweithredu a nodwyd yn flaenorol yn y tabl isod:

| Categori | Maes Risg | Camau gweithredu i'w cyflawni yn 2025/26 a thu hwnt |
|---|---|---|
| Risgiau a Pherfformiad: Mynediad diawdurdod at ddata | Derbyniodd yr Heddlu adroddiad archwilio mewnol sicrwydd cyfyngedig mewn perthynas â rheoli gwybodaeth ym mis Mawrth 2024. Nodwyd bod pryderon ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael. Ychwanegwyd y mater hwn at gofrestr risg yr Heddlu.<br><br>Yn ystod 2024/25 aethpwyd ymlaen â’r gwaith a nododd y Cydbwyllgor Archwilio yn ei adroddiad blynyddol fod cydymffurfiaeth yn y maes hwn wedi gwella'n sylweddol a'r risg wedi'i leihau i isel.<br><br>Yn ystod 2024/25 ni phrofodd Swyddfa'r Comisiynydd unrhyw achos o fynediad diawdurdod at ddata<br><br>Daeth y Cydbwyllgor Archwilio i'r casgliad nad oes gofyniad iddynt barhau i fonitro'r maes gwaith hwn yn benodol yn 2025/26.<br><br>. | Atgoffir swyddogion a staff yn barhaol am bwysigrwydd diogelwch data a gofynion a goblygiadau ehangach y Ddeddf Diogelu Data a Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data y Deyrnas Unedig (UKGDPR). Mae pecynnau gorfodol y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technolegau Dysgu Cymhwysol (NCALT), y mae eu cwblhau yn cael eu monitro a'u hyrwyddo drwy'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth, gan gynnwys Sefydliad Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Data yr Heddlu (gan gynnwys asesu).<br><br>Mae manylion achosion o fynediad diawdurdod, effaith, camau lliniaru a chanlyniadau'n cael eu cofnodi a'u cadw gan y Swyddog Adolygu Cofnodion (Swyddfa'r Comisiynydd) a'r Swyddog Diogelu Data (Heddlu) yn unol â MOPI a Deddfwriaeth Diogelu Data.<br><br>Mae cyngor ac argymhellion priodol yn cael eu rhoi i unigolion neu adrannau lle bo'n berthnasol ac yn cael eu cyfeirio i'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth a'r Adran Safonau Proffesiynol os oes angen. Mae'r adroddiad Digwyddiad Data yn cael ei fonitro drwy'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth sy'n manylu ar yr holl ddigwyddiadau data a adroddir i'r adran Llywodraethu Gwybodaeth fesul chwarter.<br><br>Mae digwyddiad data yn cael ei gofnodi pan gaiff ei adrodd mewn llu a chyn ymchwiliad ynghylch a oes tor diogelwch data personol gwirioneddol wedi digwydd ac asesiad o’i ddifrifoldeb. |

## Egwyddorion Llywodraethu Allweddol

**Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith**

- Cyflwynwyd Cod Moeseg newydd yn 2024 ynghyd â Chod Ymarfer ar gyfer Plismona Moesegol. Mae'r dogfennau diwygiedig hyn yn amlinellu'r ymddygiadau proffesiynol sy'n ofynnol i swyddogion, staff a gwirfoddolwyr mewn plismona. Mae'r Cod Moeseg a'r Cod Ymarfer wedi'u hymgorffori trwy waith y Pwyllgor Moeseg
- Mae'r tîm prif swyddogion yn creu awyrgylch o ymddygiad moesegol, gan arwain trwy esiampl ac annog eraill i herio ymddygiad amhroffesiynol. Mae swyddogion a staff yn ymwybodol o ffiniau ymddygiad proffesiynol, ac mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn ymchwilio i ymddygiad amhroffesiynol mwy difrifol.
- *Nododd HMICFRS yn flaenorol yn ei arolygiad PEEL:*

  *"Mae Heddlu Gwent yn buddsoddi yn natblygiad ac amrywiaeth ei arweinwyr. Mae'n arfogi ei bersonél i gynnal safonau uchel o ymddygiad a thriniaeth deg. Yn sicr, mae adborth gan y gweithlu yn dangos bod y llu wedi creu amgylchedd gwaith moesegol lle mae goruchwylwyr yn herio ymddygiad gwahaniaethol."*

- Daeth Rheoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) (Diwygio) i rym yn ystod 2024/25 (7 Mai 2024)
- Roedd y newidiadau deddfwriaethol hyn yn gofyn am newidiadau mewn polisïau ac arferion grym mewnol yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol. Y prif welliant yw cyfansoddiad paneli camymddwyn - gan roi cyfrifoldeb am gadeirio trafodion ar gyfer swyddogion nad ydynt yn uwch swyddogion i brif swyddogion (dileu Cadeiryddion Cymwys yn Gyfreithiol) a phenodi Cynghorwyr Cyfreithiol.

- Mae'r Heddlu yn defnyddio amrywiaeth o sianeli cyfryngau i godi ymwybyddiaeth o faterion uniondeb i staff.
- Mae'r gofrestr ganolog o roddion a lletygarwch yn cael ei defnyddio'n dda ac mae'n cynnwys manylion y cynigion a wneir i staff sy'n cael eu gwrthod.
- Mae polisi buddiannau busnes yr Heddlu wedi cael ei adolygu ac mae'n glir gyda cheisiadau wedi'u cofnodi'n dda.
- Sicrheir bod datgeliad partïon cysylltiedig yn cael ei wneud yn y Datganiad o Gyfrifon.
- Mae dulliau cyfrinachol a pholisi clir i gefnogi staff sy'n adrodd am gamymddwyn gyda swyddogion a staff yn cael eu hannog i fod yn 'gydnerthwyr'.
- Mae moeseg, ymddwyn ag uniondeb a materion ymddygiad yn parhau i gael sylw amlwg gan yr Heddlu (gan gynnwys y gwaith a wnaed yn dilyn y cyflwyniad a roddwyd gan y Fonesig Louise Casey i Dîm Gwent

Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

- Ymgynghorodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn helaeth â rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â'i Chynllun Trosedd a Chyfiawnder yr Heddlu cyntaf (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025)
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gydag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr awdurdodau lleol yr heddlu yn ogystal â chyfarfodydd mynych gyda phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.
- Mae'r pum blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun yr Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder yn sicrhau bod cynlluniau ymgysylltu pwrpasol ar waith ar gyfer pob ardal awdurdod lleol a bydd timau lleol yn helpu i hwyluso'r gwaith hwn.
- Mae Swyddogion Dylunio i Atal Trosedd Ymroddedig yn darparu rôl ddeuol, gan gynnig cyngor tactegol ar ddiogelwch yn ogystal â darparu arbenigedd mewn safonau Diogel trwy Ddyluniad, gan ddylanwadu ar amrywiaeth o bartneriaid fel adrannau cynllunio awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr. Mae hyn yn ei dro yn arwain at gymunedau sydd wedi'u cynllunio'n dda sy'n atal a lleihau troseddu.
- Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu Cronfa Effaith Gadarnhaol sydd ar gael i swyddogion ariannu mentrau cymunedol rhagweithiol sy'n cefnogi datrys problemau lleol ac yn helpu i fagu hyder ac ymddiriedaeth gymunedol.

- Mae gwefannau'r llu a Swyddfa’r Comisiynydd yn cael eu diweddaru i ddarparu mynediad at wybodaeth strategol gan gynnwys dogfennau corfforaethol allweddol.
- Gwneir defnydd eang o'r cyfryngau cymdeithasol ac o 'Materion Cymdogaeth' (system

- Yn unol â Gorchmynion Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011 a 2012 (a'r canllawiau a ddarperir gan y Comisiynydd Gwybodaeth), mae llawer o wybodaeth wedi bod ar gael i'r cyhoedd trwy wefannau'r Heddlu a'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- Caiff penderfyniadau'r Comisiynydd, sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, eu cyhoeddi ar ei gwefan (oni bai bod rhesymau penodol pam y dylai penderfyniad gael ei eithrio).
- Roedd y gwaith arolwg a gynhaliwyd yn 2024/25 yn cynnwys ymgynghoriad mewn perthynas â'r praesept lle gofynnodd y Comisiynydd am farn ar lefel arfaethedig y cynnydd a sut y dylid ei wario.
- Mae rheolwyr ward cymdogaeth a swyddogion cymorth cymunedol yn parhau i fod yn bresenoldeb rheng flaen gweladwy pwysig mewn cymunedau lleol.

- Mae asesiadau HMICFRS PEEL (effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu) yn darparu sicrwydd ar sut mae'r Heddlu wedi perfformio mewn sawl maes pwysig.
- Mae argymhellion HMICFRS wedi'u cynllunio i wella darpariaeth gwasanaethau.
- Manylir ar fanylion adroddiadau HMICFRS a'u hargymhellion yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn

Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni’r canlyniadau arfaethedig.

Diffinio canlyniadau o safbwynt manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Mae'r Fframwaith Comisiynu a'r Strategaeth Caffael yn ystyried yr elfennau cymdeithasol ehangach ac yn ymroi yn gyffredinol i werth cyhoeddus. Mae Heddlu Gwent wedi ymrwymo i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gadwyni cyflenwi moesegol. Mae Gwerth Cymdeithasol bellach wedi'i ymgorffori yn y Fframwaith Comisiynu a sgorio gwerthuso Tendrau.

Cyhoeddodd yr Heddlu a Swyddfa’r Comisiynydd Datganiad Caethwasiaeth Fodern wedi'i adnewyddu yn 2023/24. Mae Heddlu Gwent yn parhau i godi ymwybyddiaeth o faterion caethwasiaeth fodern ar draws ei gadwyn gyflenwi ac ym mis Rhagfyr 2024, cyflawnodd ei darged i asesu'r 100 o gyflenwyr gorau. Y bwriad yw parhau i fwrw ymlaen â'r gweithgaredd hwn yn 2025/26.

Mae 'Cynaliadwyedd' yn un o sylfeini allweddol Cynllun yr Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder 2025 – 2029. Bydd cynaliadwyedd yn parhau i fod yn llinyn allweddol o waith i reoli ystadau a fflyd, sydd wedi gweld cynnydd mewn cerbydau trydan a chyfleusterau gwefru a datblygu cyfleusterau gyda chyn lleied o effaith amgylcheddol â phosibl.

Mae Heddlu Gwent yn cydnabod yr angen i greu dull sefydliadol â mwy o ffocws o leihau effeithiau amgylcheddol. Er enghraifft, mae Gorsaf Heddlu'r Fenni yn garbon niwtral. Mae cynlluniau tymor byr/canolig yn cynnwys Strategaeth Cynaliadwyedd sy'n ceisio cyflawni targedau allweddol erbyn 2030. Bydd hyn yn cyfrannu at

Mae'r Heddlu wedi mabwysiadu agenda 'Gwent Gwyrddach' i hyrwyddo dulliau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd sydd hefyd yn sicrhau arbedion cost (gan gynnwys cyflawni'r targed o anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi, dull ynni solar a defnyddio cerbydau trydan ar gyfer ceir

- Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn parhau i fod yn rhan o'r presenoldeb strategol mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar ddatblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy sy'n gwneud ein cymunedau'n fwy diogel ac yn gwella ein lles.
- Yn **2024/25** cyflwynodd yr heddlu'r dull cenedlaethol 'Gofal Cywir, Person Cywir' gyda'r nod o sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu cyfeirio at y corff cyhoeddus mwyaf addas i ddiwallu eu hanghenion, ac mae Heddlu Gwent yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus mewn perthynas â hyn. Bydd y gwaith hwn yn

Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu yn cynnwys asesiad o'r galw a'r adnoddau/capasiti fydd eu hangen i fodloni'r galw.

Mae gan rolau arwain a rheoli gyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, ac mae’r Coleg Plismona wedi cyhoeddi Arferion Proffesiynol Awdurdodedig cenedlaethol.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn dangos arweinyddiaeth wrth ddatblygu gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol a lefel Cymru Gyfan, a disgwylir i hyn ddatblygu ymhellach yn 2025/26.

O ran capasiti, galluogodd y rhaglen Uplift a’r Warant Plismona Cymdogaeth (NPG) i'r heddlu gynyddu niferoedd Heddlu Gwent

Mae gan yr heddlu raglen datblygu arweinyddiaeth ar waith ar gyfer goruchwylwyr rheng flaen - swyddogion a staff. Mae'r rhaglen yn ymdrin â phynciau fel rheoli perfformiad, gwneud penderfyniadau a rôl y goruchwyliwr wrth ddefnyddio systemau TG allweddol.

Mae PERFORM yn galluogi gosod targedau corfforaethol, tîm a phersonol a nodi cyfleoedd hyfforddi. Yn ystod 2025/26 bydd yr heddlu yn ymgorffori'r system PERFORM ymhellach i sicrhau datblygiad proffesiynol staff, gan gefnogi argymhellion HMICFRS o ran defnyddio proses o'r fath yn effeithiol i nodi potensial arweinyddiaeth.

Yn ystod 2024/25 ymgorfforodd yr heddlu yr hyfforddiant diogelwch newydd i swyddogion (PPST – rhaglen hyfforddi diogelwch cyhoeddus a phersonol).

Bydd y 'Rheolwr Talent' yn parhau i weithio gyda'r tîm Gwasanaethau Pobl i sicrhau bod gan Heddlu Gwent y data angenrheidiol i lywio'r cyfarfod Cynllunio Gweithlu Strategol. Maent hefyd yn gyfrifol am ddefnyddio/cydymffurfio â PERFORM.

Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo

Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

- Mae risg yn parhau i fod yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod strategol o fewn yr Heddlu ac ym mhob un o gyfarfodydd gwneud penderfyniadau'r Comisiynydd. Mae'r fframwaith rheoli risg a fabwysiadwyd yn sefydlu sut mae risg wedi'i ymgorffori trwy gydol y gwahanol elfennau o lywodraethu corfforaethol corfforaeth(au) undyn.
- Mae Prif Swyddogion ac aelodau Grŵp Gweithredol y Comisiynydd yn parhau i berchnogi'r materion sy'n berthnasol i'w cylch gwaith ac yn sicrhau bod risgiau'n cael eu cofnodi a'u hadolygu'n ffurfiol.
- Mae Prif Swyddogion Cyllid y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cynghori eu corfforaeth undyn ar ddiogelu asedau, rheoli risg ac

Mae rhan o'r dull o reoli risg yn ymwneud â phrynu yswiriant i ddiogelu asedau a rhwymedigaethau lle bo hynny'n ofynnol neu'n gost-effeithiol.
Mae'r sefydliad yn rhagweithiol o ran hunan yswirio rhai elfennau o'r pecyn yswiriant cyffredinol.
Cynhaliwyd ymarfer tendr yswiriant ar y cyd newydd yn 2024. Bydd darpariaethau hwnnw yn cael eu hadolygu yn 2025/26.

- Mae'r Comisiynydd yn rhoi unrhyw wybodaeth y gallai fod ei hangen yn rhesymol (yn unol ag adran 13 o Ddeddf 2011) i'r panel Heddlu a Throsedd, ac mae'n gwneud ymdrech i'w hysbysu am ddatblygiadau o bwys.
- Mae'r Comisiynydd yn llunio adroddiad blynyddol yn unol ag adran 12 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.
- Nid yw'r Panel yn craffu ar berfformiad y Prif Gwnstabl na'r sawl sy'n atebol iddo gan mai cyfrifoldeb y Comisiynydd yw hyn, ond mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn ceisio sicrhau bod Aelodau'r Panel yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol.

Mae gan yr heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd bolisïau a mecanweithiau twyll a gwrth-lygredd ar waith ac mae'r trefniadau'n cael eu monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae archwilio mewnol hefyd yn darparu craffu gwrthrychol annibynnol sy'n rhoi sicrwydd ar y rheolaethau sydd ar waith i atal gwall, twyll neu lygredd.
Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd yn darparu adnoddau digonol a mynediad agored at wybodaeth sy'n ofynnol gan yr archwilwyr.
Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol yr Heddlu sy'n darparu sicrwydd ar ddigonolrwydd rheolaethau mewnol, rheoli risg a threfniadau ariannol.
Caiff unrhyw fuddiannau busnes eu datgelu a'u cadw mewn Cofrestr (sydd ar gael i'r cyhoedd).
Mae cyflogau, treuliau a lletygarwch y Prif Swyddog yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr heddlu.

Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Cedwir cofrestr o fuddiannau hysbys Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn unol ag Atodlen 1, Paragraff 1 (e) o Orchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2011 (fel y'i diwygiwyd).

Mae'r materion sy'n dod i'r amlwg a nodwyd yn rhai fydd yn cael effaith o fewn y pedair blynedd nesaf yn cynnwys:
Bregusrwydd ariannol swyddogion a staff
Mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gyda'r risgiau sy'n gysylltiedig â hynny.
Sylwer: DS: Mae rôl swyddog 'ymgysylltu atal' wedi'i datblygu i ganiatáu gallu ar gyfer strategaethau ymyrraeth gynnar i wrthsefyll llygredd a chamymddwyn yr heddlu. Bydd yr unigolyn hwn yn rhoi sesiynau briffio i reolwyr, Dysgu a Datblygu, Adnoddau Dynol yn ogystal ag asiantaethau partner a'r

**ATODIAD 2**

**COD RHEOLAETH ARIANNOL CIPFA - CYNLLUNIAU ASESU/GWEITHREDU BLYNYDDOL:**

Disgwyliad y Cod Rheolaeth Ariannol (Cod FM) yw y bydd rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol gydymffurfio â'r holl safonau rheoli ariannol, os ydynt am ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag er bod cydymffurfio â safonau rheoli ariannol CIPFA yn orfodol, nid yw'r Cod Rheolaeth Ariannol yn argymell sut y gellir cyflawni hyn. Mae CIPFA yn cydnabod bod arferion plismona yn wahanol i arferion cyrff cyhoeddus eraill fel awdurdodau lleol.

Chwe egwyddor y Cod FM yw: Arweinyddiaeth Sefydliadol, Atebolrwydd, Tryloywder, Safonau Proffesiynol, Sicrwydd a Chynaliadwyedd Tymor Hir (ac mae'r rhain wedi'u trosi yn 17 safon rheoli ariannol ar draws saith adran o'r Cod FM – gweler isod).

Manylir ar asesiad 2024/25 ar gyfer y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn erbyn safonau rheoli ariannol y Cod FM (ac unrhyw gamau gweithredu a nodwyd) yn yr Atodiad 2 hwn isod. Sylwer, trwy gydol yr asesiad defnyddir 'Heddlu' i gynrychioli'r ddau Gorfforaeth Undyn er hwylustod cyfeirio.

| Diffiniadau o Sicrwydd | |
|---|---|
| **Sylweddol** | **Canfuwyd bod pob maes o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Cod FM.** |
| **Rhesymol** | **Canfuwyd bod y rhan fwyaf o feysydd o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Cod FM.** |
| **Rhannol** | **Canfuwyd nad oedd y rhan fwyaf o feysydd o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Cod FM.** |
| **Dim** | **Canfuwyd nad oedd unrhyw un o'r holl feysydd o drefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad a adolygwyd yn cydymffurfio â'r Cod FM.** |

| | Cwestiwn | Ateb | Sicrwydd | Meysydd i'w gwella |
|---|---|---|---|---|
| **Adran 1 - Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid a'r Tîm Arwain** | | | | |
| **A** | **Mae'r tîm arwain yn gallu dangos bod y gwasanaethau a ddarperir gan yr Heddlu yn darparu gwerth am arian** | | | |
| 1 | A oes gan yr Heddlu ddealltwriaeth glir a chyson o'r hyn y mae gwerth am arian yn ei olygu iddo ac i'w dîm arweinyddiaeth? | Ceir cyfeiriad clir at werth am arian yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP), Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl a'r Strategaeth Caffael.<br>Mae Archwilio Cymru yn ystyried yn flynyddol y trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ategu eu casgliad gwerth am arian. | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | A oes gan yr Heddlu ddulliau addas ar waith i hybu gwerth am arian ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau unigol? | Mae gwerth am arian wedi'i ymgorffori yn yr holl ddogfennau caffael ac mae'r holl staff caffael yn deall yr angen i ddangos gwerth am arian trwy dendrau a chontractau.<br>Mae swydd Cydlynydd Gwireddu Buddion o fewn Adran Newid Busnes yr Heddlu.<br>Mae fframwaith corfforaethol o weithdrefnau rheoli a rheolau ar gyfer sicrhau gwerth am arian wedi'i ymgorffori yn y 'Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd' a'r 'Rheoliadau Ariannol' y Comisiynydd/Heddlu.<br>Mae'r Prif Gwnstabl yn cadeirio cyfarfod Tîm Prif Swyddogion ffurfiol misol lle mae materion o gyfarfodydd llywodraethu'r Heddlu yn cael eu huwchgyfeirio.<br>Mae'r Comisiynydd hefyd yn cadeirio Bwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd chwarterol sy'n ystyried perfformiad sefydliadol ac ariannol ym mhob cyfarfod. | Sylweddol | |
| 3 | A yw'r Heddlu'n gallu dangos y camau mae wedi eu cymryd i hybu gwerth am arian a'r hyn mae wedi ei gyflawni? | Mae'r dull o arbed a newid a fabwysiadwyd gan yr Heddlu yn cael ei ddangos gan y cofnod cyflawni arbedion sydd ar waith ers 2010. Bydd yr angen parhaus i wneud arbedion yn parhau ac mae'r Heddlu mewn sefyllfa dda i gyflawni'r rhain er ei bod yn bwysig bod yr Heddlu yn cadw ei ffocws ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi perfformiad cymharol Heddlu Gwent â'i deulu lluoedd mwyaf tebyg ac yn enghraifft o'r Gwerth am Arian cymharol trwy atal troseddu a phrofiad.<br>Adroddir arbedion caffael i Blue Light Commercial bob chwarter.<br>Mae gwaith rheoli contractau yn cael ei gynnal gan randdeiliaid gwasanaeth, gyda goruchwyliaeth strategol gan yr adran Gaffael. | Sylweddol | |
| **B** | **Mae'r Heddlu'n cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol fel y bo'n berthnasol i Blismona** | | | |
| 1 | A yw'r Prif Swyddog Cyllid yn aelod allweddol o'r tîm arwain, sy'n ymwneud â'r holl benderfyniadau busnes o bwys, ac yn gallu dylanwadu arnynt? | Mae'r ddau Brif Swyddog Cyllid (yr Heddlu a'r Comisiynydd) yn aelodau o'u timau arwain priodol ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Comisiynydd yn y drefn honno. Mewn perthynas â Phrif Swyddog Gweithredol y Prif Gwnstabl, er nad yw'r llinell adrodd hon yn gyson â dogfen CIPFA (diwygiedig 2021) 'The Role of the CFO in Policing.', cydnabyddir y trefniant amgen hwn. Mae Prif Swyddog Gweithredol y Prif Gwnstabl hefyd yn Swyddog S151 gyda llinell adrodd i'r Prif Gwnstabl. | Sylweddol | |
| 2 | A yw'r Prif Swyddog Cyllid yn arwain ac yn hybu cyflawni rheolaeth ariannol dda ar draws yr Heddlu? | Ydy, mae'r ddau Brif Swyddog Cyllid yn hyrwyddo ac yn arwain hybu a chyflawni rheolaeth ariannol dda yn yr Heddlu a gan y Comisiynydd. | Sylweddol | |
| 3 | A yw'r Prif Swyddog Cyllid yn briodol o gymwys a phrofiadol? | Ydy, mae'r ddau Brif Swyddog Cyllid yn briodol o gymwys a phrofiadol. | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | A oes gan y tîm cyllid adnoddau priodol ac a yw’n addas i'r diben? | Ydy. Yn ddelfrydol byddai mwy o adnoddau yn fuddiol, ond mae tîm cyllid yr Heddlu yn cael adnoddau priodol o ran capasiti a gallu, ac mae'r farn archwilio mewnol ac allanol blynyddol dros flynyddoedd lawer yn dangos bod y tîm cyllid yn cyflawni i safon uchel. | Sylweddol | |
| **Adran 2 - Arddull llywodraethu a rheolaeth ariannol** | | | | |
| **C** | **Mae'r tîm arwain yn dangos ei gyfrifoldeb dros lywodraethu a rheolaeth fewnol yn ei weithredoedd a'i ymddygiad** | | | |
| 1 | A yw'r tîm arwain yn cefnogi egwyddorion Nolan? | Mae'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'n benodol ymrwymiad y timau arwain i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gydymffurfio â'r saith egwyddor a nodir yn Safonau Bywyd Cyhoeddus (a elwir yn Egwyddorion Nolan) fel y'u hymestynnwyd yn ddiweddarach gan y Cod Moeseg.<br>Oes, mae'r cod moeseg yn nodwedd allweddol i bob swyddog heddlu a staff ac mae'n cael ei hyrwyddo yn ystod hyfforddiant a chyrsiau sefydlu. Darperir hyfforddiant ar-lein rheolaidd hefyd a'i ddilyn i sicrhau cydymffurfiaeth.<br>Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi sefydlu Pwyllgor Moeseg ar y cyd ac maent yn cael eu cynrychioli ar y ddau.<br>Mae holl bolisïau a gweithdrefnau'r Heddlu yn ymgorffori'r egwyddorion allweddol o'r Cod Moeseg. | Sylweddol | |
| 2 | A oes gan yr Heddlu fframwaith clir ar gyfer llywodraethu a rheolaeth fewnol? | Oes, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn adolygu ac yn diweddaru eu Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd yn rheolaidd. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn 2024.<br>Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cofnodi’r trefniadau yn glir, a chesglir tystiolaeth o’r rhain yn rhan o'r broses hon o adolygu. | Sylweddol | |
| 3 | A yw'r arweinyddiaeth wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer sicrwydd, archwilio mewnol ac atebolrwydd mewnol? | Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn ystyried y cynllun archwilio mewnol blynyddol a'r holl adroddiadau archwilio mewnol a chamau rheoli. Mae llunio'r cynllun archwilio mewnol hefyd yn ceisio rhoi sicrwydd o reolaethau mewnol allweddol. Mae Archwilio Mewnol hefyd yn darparu adroddiadau i bob Cydbwyllor Archwilio yn ogystal â rhoi barn archwilio blynyddol (fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn).<br>Trafodir ymddygiad da ac atebolrwydd yn ystod yr holl adolygiadau perfformiad staff a swyddogion bob blwyddyn (proses datblygu perfformiad)<br>Mae polisi chwythu'r chwiban sy'n cael ei reoli, ac adroddiadau o unrhyw doriadau yn cael eu hymchwilio gan yr Adran Safonau Proffesiynol<br>Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi caffael ar y cyd trwy broses dendro agored ac wedi darparu gwasanaeth archwilio mewnol yn allanol sy'n adrodd i'r ddau Brif Swyddog Cyllid. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol hwn yn | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mynychu ac yn darparu adroddiadau rheolaidd i bob cyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio.<br>Mae polisi'r Heddlu ar roddion a lletygarwch, sy'n cael ei reoli a'i hyrwyddo gan yr Adran Safonau Proffesiynol, ac sydd hefyd yn berthnasol i Dîm y Comisiynydd. | | |
| 4 | A yw'r tîm arwain yn cefnogi safonau uchel o lywodraethu a rheolaeth fewnol? | Gweler yr ymateb i C2 uchod. Mae llawer o waith wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf i adolygu a chryfhau'r trefniadau llywodraethu ar y cyd yn sylfaenol (fel y gwelir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn ar gyfer 2024/25) ac mae trefniadau o'r fath yn parhau i esblygu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn diwallu anghenion sefydliadol. Mae'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cyfrifoldebau clir ar gyfer gwneud penderfyniadau.<br>Mae pob penderfyniad allweddol gan y Comisiynydd o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan, gan gynnwys dogfennau ategol lawn.<br>Cod Ymddygiad a buddiannau busnes – gweler C1 a C3 uchod. | Sylweddol | |
| 5 | A yw'r tîm arwain yn meithrin diwylliant o lywodraethu effeithiol a rheolaeth fewnol gadarn ar draws yr Heddlu? | Mae'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys Rheoliadau Ariannol. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. | Sylweddol | |
| **D** | **Mae'r Heddlu yn defnyddio'r Fframwaith CIPFA/SOLACE Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: (2016)** | | | |
| 1 | A yw'r Heddlu wedi ceisio cymhwyso'r egwyddorion, yr ymddygiad a'r camau gweithredu a nodir yn y Fframwaith i'w drefniadau llywodraethu ei hun? | Ydy, fel y gwelir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. | Sylweddol | |
| 2 | A oes gan yr Heddlu god llywodraethu lleol addas ar waith? | Oes, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol ar y cyd, sy'n nodi trefniadau llywodraethu lleol, gan gynnwys cynllun cydsynio a dirprwyo, rheoliadau ariannol, egwyddorion perthynas a rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chontractau. Mae hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i adolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio. | Sylweddol | |
| 3 | A oes gan yr Heddlu broses sicrwydd gadarn i gefnogi ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol? | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei baratoi ar y cyd â'r ddau Brif Swyddog Cyllid, y Pennaeth Cyllid, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth y Comisiynydd a rhanddeiliaid perthnasol. Darperir fersiwn ddrafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i Fwrdd Rheoli Strategol y Comisiynydd, | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfarfod Tîm y Prif Swyddogion, Archwilio Cymru a'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn ei gyhoeddi ar gyfer sylwadau. | | |
| **E** | **Mae arddull rheolaeth ariannol yr Heddlu yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol** | | | |
| 1 | A oes gan yr Heddlu fframwaith effeithiol o atebolrwydd ariannol? | Oes, drwy'r Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol, gan gynnwys Rheoliadau Ariannol a rheoliadau contractau. | Sylweddol | |
| 2 | A yw'r Heddlu wedi ymrwymo i welliant parhaus o ran darbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a thegwch ei wasanaethau? | Mae'r Heddlu yn cadw cofnod o adolygiadau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd penodol ac mae ganddo Gyfarfod Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd i nodi effeithlonrwydd a buddion. Gweler yr ymatebion blaenorol yn Adran A uchod. | Sylweddol | |
| 3 | **A yw tîm cyllid yr Heddlu'n cyfrannu'n briodol at ddatblygu cynlluniau strategol a gweithredol?** | Mae Prif Swyddog Cyllid y Prif Gwnstabl yn aelod o'r Tîm Prif Swyddogion ac yn rhan annatod o ddatblygu'r holl gynlluniau strategol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn cyfrannu ar lefel dactegol, a Phartneriaid Busnes Cyllid yn ymgysylltu ar lefel weithredol.<br>Mae Prif Swyddog Gweithredol y Comisiynydd yn aelod o Uwch Dîm Gweithredol y Comisiynydd ac mae'n eistedd ar nifer o fyrddau strategol i ddarparu mewnbwn, her a chraffu priodol.<br>Mae uwch gynrychiolwyr cyllid yn eistedd ar yr holl fyrddau penderfyniadau a gwybodaeth allweddol. | Sylweddol | |
| 4 | A yw rheolwyr ar draws yr Heddlu yn ddigon hyddysg yn ariannol i ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol ac i gael eu dwyn i gyfrif am wneud hynny? | Mae gan yr Adran Gyllid bartneriaid busnes cyllid penodol ar gyfer pob maes busnes, sy'n cryfhau'r cysylltiad rhwng busnes a chyllid.<br>Mae'r dull Partneriaeth Busnes wedi'i ddatblygu'n dda gyda chyflwyniadau i'r Uwch Dîm Rheoli ar gyllid tymor canolig a'r cylch cynllunio busnes newydd yn ogystal â chyfranogiad y Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth Cyllid yn y Cyfarfod Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd. | Sylweddol | |
| 5 | A yw'r Heddlu wedi ceisio barn allanol ar ei arddull ariannol, er enghraifft trwy broses adolygiad gan gymheiriaid? | Mae'r Heddlu yn parhau i danysgrifio i raglen Cyflawni Rhagoriaeth Ariannol mewn Plismona CIPFA sy'n cynnwys adolygiad gan gymheiriaid o Reoli Ariannol. | Sylweddol | |
| 6 | A oes gan unigolion â chyfrifoldebau llywodraethu a rheoli ariannol bwerau dirprwyedig addas a sgiliau a hyfforddiant priodol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn? | Oes, fel y nodir yn y Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol gan gynnwys y Rheoliadau Ariannol ynddo. | Sylweddol | |

| Adran 3 - Rheolaeth Ariannol Hirdymor i'r Tymor Canolig | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **F** | **Mae'r Heddlu wedi cynnal asesiad credadwy a thryloyw o gadernid ariannol** | | | |
| 1 | A yw'r Heddlu wedi cynnal Asesiad o Gadernid Ariannol? | Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn asesiad cynhwysfawr o'r gwydnwch ariannol a'r gofynion adnoddau, mae wedi profi ei werth trwy lywio penderfyniadau cyllido ac arbedion, mae'n cael ei ategu gan Ddatganiad Rheoli'r Heddlu, strategaeth yr Ystad, strategaethau caffael a fflyd 5 mlynedd yn ogystal â strategaeth gwasanaethau digidol a TGCh. Mae'r blaenamcanestyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a barn broffesiynol ar yr asesiad economaidd cenedlaethol. Mae ymrwymiad cadarn i'r cod darbodus a Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn a Chronfeydd wedi'i Neilltuo effeithiol.<br>Mae'r Prif Swyddogion Cyllid yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar Fforymau Cenedlaethol i ragweld goblygiadau galw ac adnoddau yn well. | Rhesymol | Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ynghyd â Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd wedi noddi arolwg ariannol o'r lluoedd ar y cyd, er mwyn deall gwydnwch ariannol ar draws lluoedd ac ar gyfer plismona'r Deyrnas Unedig yn ei gyfanrwydd. Yn ogystal, mae CIPFA hefyd wedi datblygu dangosfwrdd gwydnwch ariannol. Mae'r ddwy ffynhonnell wybodaeth hyn, er eu bod yn gyflenwol ac wedi'u mireinio'n fawr, yn dal i fod yn gymharol gynnar o ran eu defnydd a'u dealltwriaeth gan luoedd. Wrth i'r ddwy ffynhonnell gael eu hymgorffori a'u datblygu, bydd darlun wedi'i fireinio'n fwy o wydnwch ariannol unigol a chyfannol yn dod i'r amlwg. |
| 2 | A yw'r Asesiad wedi rhoi prawf ar gadernid cynlluniau ariannol yr Heddlu o ran amrywiaeth o senarios gwahanol? | Fel uchod. | Rhesymol | |
| 3 | A yw'r Heddlu wedi cymryd camau priodol i roi sylw i unrhyw risgiau a ganfuwyd yn rhan o'r asesiad | Fel uchod. | Rhesymol | |
| **G** | **Mae'r Heddlu yn deall ei ragolygon ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy ac mae wedi adrodd hyn yn glir i'r Aelodau** | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | A oes gan yr Heddlu ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r risgiau i'w gynaliadwyedd ariannol? | Tynnir sylw at y prif risgiau yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb flynyddol ac mae'r Heddlu'n cadw cofrestrau risg i reoli risgiau sefydliadol a strategol. | Sylweddol | |
| 2 | A oes gan yr Heddlu gynllun strategol a strategaeth ariannol hirdymor sy'n rhoi sylw priodol i'r risgiau hyn? | Oes, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r gwaith blynyddol a wneir o ran Datganiad Rheoli'r Heddlu. Rydym yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar Gronfeydd Wrth Gefn ac Arian wedi'i Neilltuo hefyd. | Sylweddol | |
| 3 | A yw'r Heddlu wedi ceisio deall effaith yr heriau strategol, gweithredol ac ariannol y gallai eu hwynebu ar ei gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol (e.e., defnyddio techneg fel cynllunio senario)? | Defnyddir cynllunio senario yn fewnol i lunio'r cynlluniau ariannol tymor canolig.<br>Mae adroddiadau cyllideb sydd wedi'u cyhoeddi yn cynnwys asesiad risg sy'n tynnu sylw at y risg ariannol i ragdybiaethau cyllideb allweddol e.e. newidiadau mewn dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, lefelau praesept ac ati. Mae'r blaenoriaethau asesu risg a nodir yn Natganiad Rheoli'r Heddlu yn cael eu hadlewyrchu o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cofnodi'n llawn y rhagdybiaethau cyllidebol allweddol o ran dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, cynnydd chwyddiant, newidiadau mewn cyllid grant a lefelau praesept posibl ac ati. | Sylweddol | |
| 4 | A yw'r Heddlu wedi adrodd yn effeithiol i'r tîm arwain ac i aelodau ei ragolygon ar gyfer cynaliadwyedd ariannol hirdymor, y risgiau cysylltiedig ac effaith y rhain ar wneud penderfyniadau tymor byr a chanolig? | Mae adroddiadau rheolaidd i'r timau arwain priodol, Bwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd y Comisiynydd a'r Panel Heddlu a Throsedd yn ystod y broses o baratoi'r gyllideb yn tynnu sylw at y gwahanol risgiau a'r senarios posibl.<br><br>Yn ystod y flwyddyn paratoir adroddiadau monitro refeniw a chyfalaf ac uwch adroddir eitemau eithriadol i Fwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd y Comisiynydd, gan dynnu sylw at newidiadau mewn risgiau a materion o bwys, gan awgrymu camau priodol.<br><br>Mae trafodaeth reolaidd ar ystyriaethau ariannol a risgiau mewn byrddau strategol a gweithredol allweddol, ac mae'r rhain yn cael eu hadrodd a'u huwchgyfeirio yn unol â hynny. | Sylweddol | |
| **H** | **Mae'r Heddlu'n cydymffurfio â Chod Cyllid Cyfalaf Darbodus mewn Awdurdodau Lleol CIPFA** | | | |
| 1 | A yw'r Heddlu wedi paratoi strategaeth cyfalaf addas? | Mae'r Strategaeth Cyfalaf cyffredinol cyfredol tan 2029/30 wedi cael ei hardystio gan y Cydbwyllgor Archwilio a chafodd ei chymeradwyo gan y Comisiynydd ym mis Mawrth 2025. Cymeradwywyd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2025/26 yn rhan o'r ystyriaethau Cyllideb a Phraesept gan y Panel Heddlu a Throsedd ar 31 Ionawr 2025. | | |
| 2 | A yw'r Heddlu wedi pennu dangosyddion darbodus yn unol â'r Cod Darbodus? | Ydy, mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Cyfalaf blynyddol; y mae'r ddau ohonynt wedi cael eu hardystio gan y Cydbwyllgor Archwilio ar gyfer 2025/26. | Sylweddol | |
| 3 | A oes gan yr Heddlu ddulliau addas ar waith ar gyfer monitro ei berfformiad yn erbyn y dangosyddion darbodus a bennwyd ganddo? | Oes, mae'r rhain yn cael eu monitro gan y Cydbwyllgor Archwilio a'u cymeradwyo gan y Comisiynydd dwywaith y flwyddyn. | Sylweddol | |
| **I** | **Mae gan yr Heddlu Gynllun Ariannol Tymor Canolig aml-flwyddyn treigl sy'n gyson â chynlluniau gwasanaeth cynaliadwy** | | | |
| 1 | A oes gan yr Heddlu Gynllun Ariannol Tymor Canolig cytûn? | Oes, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Chwefror 2025 ac mae'n cynnwys y cyfnod 2025/26 tan 2029/30, ochr yn ochr â'r gyllideb refeniw flynyddol ar gyfer 2025/26. | Sylweddol | |
| 2 | A yw'r cynllun ariannol tymor canolig yn gyson ac yn cyd-fynd â chynlluniau gwasanaeth perthnasol a'i strategaeth cyfalaf? | Ydy. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i sicrhau bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cyd-fynd â chynlluniau o'r fath. | Sylweddol | |
| 3 | A yw'r cynllun ariannol tymor canolig wedi'i baratoi ar sail asesiad cadarn o ysgogwyr perthnasol cost a galw? | Mae'r cynllun ariannol tymor canolig wedi'i baratoi i adlewyrchu'r adolygiad cyfredol o'r galw a wnaed gan yr Heddlu ochr yn ochr â'r risgiau blaenoriaethol a nodwyd yn rhan o'r FMS.<br>Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys goblygiadau cyfalaf a refeniw rhaglenni a phrosiectau trawsnewid a thechnolegol ynghyd ag ystod o fentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.<br>Mae’r Tîm Prif Swyddogion a Bwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd y Comisiynydd (fel y bo'n briodol) hefyd yn ystyried gwybodaeth am bwysau galw gweithredol presennol ac yn y dyfodol (fel y'u gelwir ar hyn o bryd) gan gynnwys y goblygiadau ar gyfer technoleg ac offer newydd.<br>Mae'r Heddlu hefyd yn ystyried canllawiau ac arferion gorau perthnasol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu e.e., stopio a chwilio, fideo camera corff.<br>Ar draws Tîm Arwain y Prif Gwnstabl, mae aelodau'n cymryd rhan mewn fforymau cenedlaethol sy'n galluogi goblygiadau ariannol posibl systemau cenedlaethol newydd a newidiadau i ganllawiau a gweithdrefnau cenedlaethol i gael eu nodi'n gynnar. | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | A yw'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei brofi am wydnwch yn erbyn amrywiadau posib realistig o ran ysgogwyr allweddol cost a galw? | Ydy, mae gofynion cytundebol a darpariaeth gwasanaeth sy'n newid yn cael eu hystyried yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, yn ogystal â rhagdybiaethau chwyddiannol. | Sylweddol | |
| 5 | Oes gan yr Heddlu gynllun rheoli asedau addas ar waith sy'n ceisio sicrhau bod ei eiddo, peiriannau a chyfarpar gan gynnwys asedau isadeiledd yn cyfrannu'n effeithiol at gyflenwi gwasanaethau ac i gyflawni amcanion strategol yr Heddlu? | Oes, mae'r Strategaeth Rheoli Asedau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddaru fel y bo gofyn. | Sylweddol | |
| **Adran 4 - Y gyllideb flynyddol** | | | | |
| **J** | **Mae'r Heddlu yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol o ran y broses pennu cyllideb** | | | |
| 1 | A yw'r Heddlu'n ymwybodol o'i rwymedigaethau statudol o ran y broses pennu cyllideb? | Ydy, mae'r broses pennu cyllideb wedi ei gwreiddio yng ngwaith llywodraethu'r Heddlu ac mae cyllidebau ffurfiol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod Tîm Prif Swyddogion y Prif Gwnstabl, Bwrdd Rheoli Strategol y Comisiynydd a Bwrdd Sicrwydd ac Atebolrwydd y Comisiynydd, y Cydbwyllgor Archwilio, ac yna'r Panel Heddlu a Throsedd. | Sylweddol | |
| 2 | A oes gan yr Heddlu gyllideb wedi'i mantoli ar gyfer y flwyddyn gyfredol? | Oes, fel yr ardystiwyd gan y Panel Heddlu a Throsedd ac y cymeradwywyd gan y Comisiynydd. | Sylweddol | |
| 3 | A yw'r Heddlu'n ymwybodol o'r amgylchiadau y dylai gyflwyno hysbysiad Adran 114 mewn perthynas â nhw a sut i wneud hynny? | Ydy, mae'r ddau brif swyddog cyllid yn gwbl ymwybodol o ofynion Adran 114. | Sylweddol | |
| **K** | **Mae'r adroddiad cyllideb yn cynnwys datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gadernid y rhagamcanion a datganiad ar ddigonoldeb y cronfeydd wrth gefn arfaethedig** | | | |
| 1 | A yw adroddiad cyllideb mwyaf diweddar yr Heddlu'n cynnwys datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid ar gadernid yr amcangyfrifon a datganiad ar | Ydy. | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ddigonoldeb y cronfeydd wrth gefn arfaethedig? | | | |
| 2 | A yw'r adroddiad hwn yn nodi ac yn ystyried yn gywir yr amcangyfrifon mwyaf arwyddocaol a ddefnyddir i baratoi'r gyllideb, y posibilrwydd bod yr amcangyfrifon hyn yn anghywir a'r effaith pe bai hyn yn wir? | O ystyried bod costau cysylltiedig â chyflog yn cyfrif am 75% o'r gyllideb net, rhagdybiaethau dyfarniad cyflog, rhagdybiaethau chwyddiant ac incwm grant yw'r elfennau mwyaf arwyddocaol o amrywioldeb yn y gyllideb. Mae'r prosesau cyllidebu sylfaen sero a chaboli o un flwyddyn i'r llall ar amrywiadau yn sicrhau rhagdygiaethau cyllideb effeithiol. Mae'r incwm grant a phraesept o anghenraid yn ofalus ac mae rhagdybiaethau ar gyflog, a phrisiau yn cael eu meincnodi'n genedlaethol. Mae hyn wedi sicrhau cyllideb hynod o gywir o ran alldro o un flwyddyn i'r llall. | Sylweddol | |
| 3 | A oes gan yr Heddlu ddigon o gronfeydd wrth gefn i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol rhagweladwy? | Oes, mae adroddiad ar wahân ar y Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn ac Arian wedi'i Neilltuo, gan gynnwys balansau a darpariaethau yn cael ei gynhyrchu i gyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig blynyddol. | Sylweddol | |
| 4 | A yw'r adroddiad yn amlinellu lefel presennol cronfeydd wrth gefn yr Heddlu, a yw'r rhain yn ddigonol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yr Heddlu a'r camau y bydd yr Heddlu'n eu cymryd i roi sylw i unrhyw ddiffyg? | Ydy, mae'r adroddiad yn rhoi rhagolwg ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sy'n gwbl gydnaws â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. | Sylweddol | |
| **5 - Ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynlluniau busnes** | | | | |
| **L** | **Mae'r Heddlu wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ble y bo'n briodol wrth ddatblygu ei strategaeth ariannol hirdymor, cynllun ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol** | | | |
| 1 | Sut mae'r Heddlu wedi ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu ei strategaeth ariannol hirdymor, cynllun ariannol tymor canolig a'i gyllideb flynyddol? | Mae'r Comisiynydd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder 2025-2029 a'r cynnydd arfaethedig ym mhraesept y dreth gyngor yn ôl y gofyn.<br>Mae cyllideb a phraesept blynyddol arfaethedig y Comisiynydd yn destun craffu gan y Panel Heddlu a Throsedd annibynnol, ar ran y cyhoedd, ac mae'r aelodau ohono sy'n Gynghorwyr yn cynrychioli pob awdurdod lleol yn ardal Gwent. | Sylweddol | |
| 2 | Pa mor effeithiol mae'r ymgysylltu yma wedi bod? | Yn y blynyddoedd diweddar mae'r Comisiynydd wedi ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y cynnydd arfaethedig ym mhraesept y dreth gyngor, ymysg nifer o faterion eraill gan gynnwys Cynllun Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder 2025-2029 a Strategaeth yr Ystâd. | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi cymeradwyo cynnydd arfaethedig y Comisiynydd ym mhraesept y dreth gyngor ar y mwyafrif helaeth o adegau ers i gomisiynwyr yr heddlu a throsedd gael eu creu. | | |
| 3 | Pa gamau mae'r Heddlu'n bwriadu eu cymryd i wella ei ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol? | Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn mynd ati i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu, ar wahân a gyda'i gilydd. Mae platfformau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i ehangu cyfleoedd ymgysylltu. Ceir strwythurau cynhwysfawr o gyfarfodydd partneriaeth / cydweithredu / cenedlaethol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol. | Sylweddol | |
| **M** | **Mae'r Heddlu yn defnyddio methodoleg arfarnu opsiynau priodol, wedi'i ddogfennu, i ddangos gwerth am arian ei benderfyniadau** | | | |
| 1 | A oes gan yr Heddlu fethodoleg ar gyfer arfarnu opsiynau sy'n gyson gyda'r canllawiau a amlinellir yng nghyhoeddiad IFAC/PAIB 'Project and Investment Appraisal for Sustainable Value Creation: Principles in Project and Investment Appraisal'? | Mae trefniadau ar gyfer asesu rhaglenni arwyddocaol wedi'u datblygu'n dda ac mae prosiectau'n cael eu rheoli yn defnyddio Prince2, UK Government Green Book a chanllawiau a phrosesau perthnasol eraill.<br>Mae Rhaglenni Newid mawr yn cael eu hategu gan asesiad o effaith, ac adrodd rheolaidd yn ystod prosiectau ac adolygiadau ar ôl eu rhoi ar waith sy'n cael eu hadrodd wrth fyrddau llywodraethu, gan gynnwys Cyfarfod Tîm Prif Swyddogion y Prif Gwnstabl a Bwrdd Sicrwydd ac Atebolrwydd y Comisiynydd (fel y bo'n briodol).<br>Craffir ar Achosion Busnes gan y Bwrdd Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd/Bwrdd Gwella Gwasanaeth a chânt eu cymharu ag achosion busnes eraill cyn eu cymeradwyo, fel mai dim ond y rhai sy'n manteisio i'r eithaf ar adnoddau prin sy'n cael eu cymeradwyo i'w cynnwys yn y gyllideb flynyddol.<br>Mae'r agwedd Buddiannau yn cael ei hamlinellu mewn Dogfennau Cychwyn Prosiect ac mae hyn yn dilyn ymlaen at ddatblygu templedi strategaeth buddiannau sy'n cael eu cynnwys mewn Achosion Busnes. Ar y cam hwn, rhoddir llinell sylfaen ar fuddion gan y Cyd-gysylltydd Buddion wedyn pan gaiff ei roi ar waith caiff data ei nodi ar berfformiad buddiannau, sy'n arwain at y broses adolygiad ar ôl rhoi ar waith.<br>Mae'r Cyd-gysylltydd Buddion yn cadw storfa ganolog o fuddion rhaglenni.<br>Mae'r Pennaeth Rheoli Newid hefyd yn rhoi cymorth i'r Adran Gyllid ganfod a datblygu buddion ariannol, sy'n cael eu cofnodi yn system tracio arbedion yr Heddlu.<br>Mae graddau'r arfarniad opsiynau a gynhelir yn adlewyrchu lefel y buddsoddiad gofynnol a'r risgiau a nodwyd gyda'r cynnig/prosiect. Mae lefel yr arfarnu opsiynau a ddefnyddir ar gyfer cynlluniau'r Ystâd a TGCh yn wahanol ac maent yn adlewyrchu nifer yr opsiynau realistig sydd ar gael. | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Caiff y rhan fwyaf o gynlluniau technoleg arwyddocaol eu harwain yn genedlaethol naill ai gan y Gwasanaeth Plismona neu'r Swyddfa Gartref, ac nid yw'r Heddlu'n chwarae rhan uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau hynny e.e., Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, Canolfan Monitro Cenedlaethol, ac ati. | | |
| 2 | A yw'r Heddlu yn cynnig arweiniad i swyddogion o ran pryd y dylid arfarnu opsiynau? | Mae staff perthnasol yn yr adrannau Gwella Gwasanaeth, Cyllid, Caffael, TGCh ac Ystadau yn deall yr angen i gynhyrchu lefel briodol o arfarnu opsiynau i gefnogi cynigion twf newydd.<br>Mae pob cynnig twf newydd yn cynnwys rhywfaint o ystyriaeth opsiynau. | Sylweddol | |
| 3 | A yw agwedd yr Heddlu tuag at arfarnu opsiynau yn cynnwys dulliau addas ar gyfer asesu opsiynau yn ansoddol ac yn feintiol? | Ble y bo'n briodol, caiff mesurau ansoddol a meintiol eu cynnwys. | Sylweddol | |
| 4 | A yw agwedd yr Heddlu tuag at arfarnu opsiynau yn cynnwys dulliau addas ar gyfer rhoi sylw i risg ac ansicrwydd? | Caiff risgiau eu hystyried ac mae dulliau mwy ffurfiol ar waith mewn rhai achosion, h.y., yn dibynnu ar werth y buddsoddiad angenrheidiol a'r risg cysylltiedig e.e., dewis cyflenwr newydd a darpariaeth weithredol ar gyfer seilwaith technoleg. | Sylweddol | |
| 5 | A yw'r Heddlu'n adrodd ar ganlyniadau arfarnu opsiynau mewn ffordd glir, gadarn, llawn gwybodaeth sy'n rhoi argymhellion clir ac yn amlinellu'r risg cysylltiedig ag unrhyw opsiwn/opsiynau a ffafrir? | Ydy, ble y bo'n berthnasol e.e., dewis ffonau symudol newydd - cyflwynir yr opsiynau yn rhan o'r broses asesu. | Sylweddol | |
| **6 - Monitro perfformiad ariannol** | | | | |
| **N** | **Mae'r tîm arwain yn defnyddio adroddiadau i adnabod a chywiro risgiau sy'n dod i'r amlwg o ran ei strategaeth cyllideb a chynaliadwyedd ariannol** | | | |
| 1 | A yw'r Heddlu'n darparu cyfres o adroddiadau priodol i'r tîm arwain sy'n ei alluogi i nodi a chywiro risgiau newydd i'w strategaeth cyllideb a chynaliadwyedd ariannol? | Ceir adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys gwybodaeth ariannol a naratif ar refeniw a chyfalaf yn ogystal â risgiau a phroblemau newydd. Caiff y rhain eu hystyried yn helaeth o fewn y strwythur llywodraethu e.e., darperir adroddiadau ariannol ar gyfer cyfarfodydd Tîm Prif Swyddogion y Prif Gwnstabl sy'n tynnu sylw at risgiau a phroblemau newydd, a chymerir camau gweithredu fel y bo angen.<br>Rhoddir adroddiadau ariannol i ddeiliaid cyllideb unigol hefyd sy'n ymgysylltu'n rheolaidd gyda'u partneriaid busnes cyllid. | Sylweddol | Mae newidiadau i fodel gweithredu'r Heddlu'n golygu bod gofynion adroddiad ehangach ar berfformiad, pobl a chyllid gan uwch swyddogion a staff yn cael eu haddasu ar draws yr Heddlu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Yn benodol, o ran cyllid, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu adrodd mewnol ar gyllid a ffigyrau goramser, gan gynnwys llwyfan Qlikview i fynd at y data.<br>Mae adroddiadau cyllid ar y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn i fyrddau llywodraethu a phrif swyddogion yn parhau i fod yn addas i'r diben. |
| 2 | A yw'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth edrych ymlaen ac edrych yn ôl o ran perfformiad ariannol a gweithredol? | Ydy. | Sylweddol | |
| 3 | A oes dulliau ar waith i adrodd am berfformiad partneriaethau cyflenwi arwyddocaol yr Heddlu, fel data monitro contractau? | Fel arweinydd portffolio ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir, mae'r Prif Swyddog Cyllid (Comisiynydd) yn sicrhau bod contractau a grantiau'n cael eu rheoli'n gadarn trwy dderbyn adroddiadau perfformiad rheolaidd gan bartneriaid yn cadarnhau metrigau ariannol ac anariannol wedi'u cymeradwyo'n barod.<br><br>Mae adroddiad y Prif Swyddog Cyllid (Prif Gwnstabl) i brif swyddogion yn cynnwys unrhyw broblemau newydd gyda chontractau neu ddarparu gwasanaethau gan bartneriaid allanol a chaiff y problemau hyn eu huwchgyfeirio i'r Tîm Prif Swyddogion a Bwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd y Comisiynydd fel y bo'n briodol. | Sylweddol | |
| 4 | A yw'r adroddiadau'n cael eu rhoi i'r tîm arwain yn brydlon ac ar fformat addas? | Maent yn cael eu cynhyrchu'n fisol/chwarterol a gweithredir yn eu sgil. | Sylweddol | |
| 5 | A yw'r tîm arwain yn hapus gyda'r adroddiadau mae'n eu derbyn a gyda'i allu i ddefnyddio'r adroddiadau hyn i gymryd camau priodol? | Ydy. | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **O** | **Mae'r tîm arwain yn monitro'r elfennau hynny o'i fantolen sy'n peri risg sylweddol i'w gynaliadwyedd ariannol** | | | |
| 1 | A yw'r Heddlu wedi nodi'r elfennau hynny o'i fantolen sy'n fwyaf critigol i'w gynaliadwyedd ariannol? | Ydy, caiff dyledwyr a chredydwyr masnachol eu monitro'n fanwl gan yr Adran Gyllid.<br>Caiff llifoedd arian, benthyca tymor byr a hirdymor, buddsoddiadau a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau eu monitro gan y prif swyddogion cyllid, y Cydbwyllgor Archwilio, y Tîm Prif Swyddogion a'r Uwch Dîm Rheoli.<br>Caiff y rhain eu hadrodd wrth Fwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd y Comisiynydd yn rhan o unrhyw ddiweddariadau cyfnodol ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys.<br>Hefyd, mae'r Panel Heddlu a Throsedd yn derbyn adroddiadau Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn ac Arian wedi'i Neilltuo er gwybodaeth. | Sylweddol | |
| 2 | A yw'r Heddlu wedi rhoi dulliau addas ar waith i fonitro'r risg cysylltiedig ag elfennau critigol ei fantolen? | Ydy. Cynhelir adolygiadau rheolaidd gan yr Adran Gyllid ynghyd â'r prif swyddogion cyllid. | Sylweddol | |
| 3 | A yw'r Heddlu'n cymryd camau i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd? | Ydy, mae camau'n cael eu cymryd wrth i risgiau gael eu nodi e.e., gohirio benthyciadau yn seiliedig ar amcanestyniadau llif arian. | Sylweddol | |
| 4 | A yw'r Heddlu'n adrodd ar ddefnydd heb ei gynllunio o'i gronfeydd wrth gefn yn brydlon wrth y Tîm Arwain? | Cyflwynir adroddiadau monitro refeniw a chyfalaf trwy'r strwythur llywodraethu i Fwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd y Comisiynydd. Caiff unrhyw amrywiad i ddefnydd a gynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn ei adrodd, gydag argymhelliad ffurfiol i Fwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd y Comisiynydd os bydd angen arian ychwanegol i gyllido gorwariant heb ei gynllunio. | Sylweddol | |
| 5 | A yw gwaith monitro risgiau i'r fantolen yn cael ei gynnwys ym mhrosesau adrodd am gyfrifon rheoli'r Heddlu? | Ydy, a chaiff ei adrodd trwy'r strwythur llywodraethu. | Sylweddol | |
| **Adran 7 - Adroddiadau ariannol allanol** | | | | |
| **P** | **Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cymryd cyfrifoldeb personol dros sicrhau bod y cyfrifon statudol a ddarperir i'r Heddlu lleol yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Heddlu Lleol yn y Deyrnas Unedig** | | | |
| 1 | A yw Prif Swyddog Cyllid yr Heddlu'n ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran paratoi'r datganiadau ariannol blynyddol? | Ydy, mae'r ddau brif swyddog cyllid yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. | Sylweddol | |
| 2 | A yw'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu cynnwys yn nisgrifiad swydd ac | Maent yn cael eu cynnwys yn nisgrifiad swydd y ddau brif swyddog cyllid. | Sylweddol | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | amcanion personol y Prif Swyddog Cyllid, ac unrhyw ddulliau rheoli perfformiad perthnasol eraill? | | | |
| 3 | A yw datganiadau ariannol yr Heddlu hyd yma wedi cael eu cynhyrchu ar amser ac yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Heddlu Lleol y Deyrnas Unedig? | Mae gan Heddlu Gwent hanes da o derfynu a chael cymeradwyaeth gan archwilwyr allanol yn gynnar. Lle y bu'n rhaid ymestyn amserlenni terfynu, fodd bynnag, mae'r rhain hefyd wedi cael eu cyflawni yn unol â gofynion deddfwriaethol. | Sylweddol | |
| **Q** | **Mae cyflwyniad y ffigyrau alldro terfynol ac amrywiadau i'r gyllideb yn galluogi'r tîm arwain i wneud penderfyniadau ariannol strategol** | | | |
| 1 | A yw tîm arwain yr Heddlu'n derbyn cyfres addas o adroddiadau ar alldro terfynol yr Heddlu ac ar amrywiadau sylweddol i'r gyllideb? | Cyflwynir adroddiad alldro i Dîm Prif Swyddogion y Prif Gwnstabl, Bwrdd Uwch Reoli'r Comisiynydd a Bwrdd Atebolrwydd a Sicrwydd y Comisiynydd gydag esboniadau clir ar gyfer pob amrywiad yn erbyn y gyllideb. | Sylweddol | |
| 2 | A yw'r wybodaeth yn yr adroddiadau hyn yn cael ei chyflwyno'n effeithiol? | Ydy. Mae'r wybodaeth hon yn cyd-fynd â'r hyn a ddarparwyd yn y Datganiad o Gyfrifon. | Sylweddol | |
| 3 | A yw'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar wybodaeth sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i'r Tîm Arwain? | Ydy, mae'n rhoi gwybodaeth am y cyllidebau refeniw a chyfalaf llawn ac yn tynnu sylw at amrywiadau unigryw a rhai sydd â gobygiadau ariannol parhaus. | Sylweddol | |
| 4 | A yw'r Tîm Arwain yn teimlo bod yr adroddiadau'n ei gefnogi i wneud penderfyniadau ariannol strategol? | Ydy. | Sylweddol | |

**Atodiad 3:**

**GWAITH ARCHWILIO MEWNOL YN YSTOD 2024/25:** Cynhaliodd yr archwilwyr mewnol, TIAA, 16 archwiliad (a dau archwiliad arall ymgynghorol). O'r rhain, aseswyd bod saith ohonynt yn darparu sicrwydd sylweddol, saith yn darparu sicrwydd rhesymol ac roedd sicrwydd yn gyfyngedig mewn dau ohonynt.

Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau'r archwiliad.

| ARCHWILIO | Gradd Sicrwydd | Argymhellion | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Blaenoriaeth 1 Brys | Blaenoriaeth 2 Pwysig | Blaenoriaeth 3 Arferol | Cyfanswm |
| 1. Cyllid: Cyflogres | Sylweddol | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 2. Cyllid – Cyfriflyfr Cyffredinol | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 3. Cyllid – Credydwyr | Sylweddol | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 4. Cyllid – Rhaglen Cyfalaf | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 5. Fetio | Sylweddol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 6. Iechyd Galwedigaethol - Atgyfeirio, Proses a Chost | Sylweddol | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 7. Chwythu'r chwiban | Sylweddol | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 8. Storfa Iwnifformau | Rhesymol | 0 | 5 | 4 | 9 |
| 9. Iechyd a Diogelwch | Rhesymol | 0 | 4 | 7 | 11 |
| 10. Cynaliadwyedd | Rhesymol | 0 | 8 | 7 | 15 |
| 11. Deddf Enillion Troseddau 2002 (POCA) | Rhesymol | 0 | 1 | 0 | 1 |
| 12. Rheoli Adnoddau Dynol – Rheoli Absenoldeb | Rhesymol | 0 | 2 | 6 | 8 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13. Rheoli Adnoddau Dynol - Map Sgiliau a Chynllunio | Rhesymol | 0 | 4 | 4 | 8 |
| 14. Rheoli Ystâd - Strategaeth | Rhesymol | 0 | 3 | 0 | 3 |
| 15. Rheoli Parhad Busnes | Cyfyngedig | 0 | 8 | 3 | 11 |
| 16. Rheoli Contractau – Golchi dillad y ddalfa | Cyfyngedig | 1 | 6 | 1 | 8 |
| **CYFANSWM YR ARGYMHELLION** | | 1 | 41 | 38 | 80 |

- O ran y meysydd yr aseswyd eu bod yn 'gyfyngedig’, mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi gofyn i gynllun gweithredu gael ei gyflwyno fel eitem agenda sefydlog ym mhob cyfarfod Cydbwyllgor Archwilio nes bydd y problemau perthnasol wedi gwella.
- Mae'r Heddlu'n darparu diweddariadau parhaus o ran cynnydd yr holl argymhellion i'r Cydbwyllgor Archwilio hefyd.